YR YMOFYNYDD.

RHIF. 29.] IONAWR, 1850. [CYF. III.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

ANERCHIAD.

GYDWLADWYR HOFF AC ANWYL,

Trwy diriondeb rhagluniaeth caniatëir i ni anerch ein darllenwyr a'n gobebwyr serchog unwaith etto ar ddechreu blwyddyn. Y mae y berthynas rhyngom wedi para bellach dros fwy na dwy flynedd. Nid amser maith, mae'n wir; ond mwy o amser nag a ddaroganwyd gan rai—amser a dreuliasom ni mewn cryn ofal a thrafferth, ond etto yn hyfryd ddigon tra yr oeddem yn teimlo ein bod ar lwybr ein dyledswydd, ac yn ceisio gwneuthur daioni.

Yn groes i ddisgwyliadau llawer, ac yn groes i'r hyn a fuom ein hunain lawer gwaith yn ystod y flwyddyn ddiweddaf yn ei ofni, dyma ni yn awr yn dechreu ein TRYDYDD GYFROL. Y mae y cyfnod ynghŷd â'r amgylchiadau yn rhoddi i ni gyfleusdra neillduol—cyfleusdra a dybiwn nas gellir yn ddoeth ei esgeuluso—er gwneuthur rhai sylwadau pwrpasol ac angenrheidiol o barthed i'r Ymofynydd.

Yr oeddem wedi gadael ysgrifenu ein hanerchiad hyd ymron y diweddaf, ac y mae tudalenau y Rhifyn hwn eisioes mor llawn fel y mae gorfod arnom adael allan amryw o ohebiaethau 'r mis. Am hyny rhaid i ni fod yn fyr yn ein sylwadau ar yr achlysur—yn llawer byrach nag y byddai ein teimladau yn ein harwaen yn naturiol i wneud; gan obeithio, modd bynnag, am gyfle ar ôl llaw i osod ger bron ein darllenwyr rai o'r ystyriaethau a ymddangosent yn dra chymwys ar y pryd hwn; ond sydd raid eu hebcor yn bresenol oherwydd y rheswm a nodwyd eisioes.

Y mae ystyriaethau perthynol i fodoliaeth, parhâd ac effeithioldeb yr Ymofynydd, rhaid addef, yn teilyngu y sylw blaenaf. "Croen am groen; pob beth a rydd dyn am ei einioes." Ond nid yw yr Ymofynydd yn chwenych byw oddieithr ar yr olwg y gall fod yn ddefnyddiol gyda bod yn dderbyniol. Y mae parhâd ei einioes yn sefyll ar law ei gyfeillion a'r cyhoedd. Mor belled ag yr ymddibyna arnom ni, fe welir oddiwrth ein gwaith yn dechreu cyfrol newydd, ein bod yn bwriadu myned yn y blaen ag ef, os gallwn, dros ryw ennyd etto. Ystyriwn y byddai yn annheg ac yn wir yn anghyfiawn tuag ei annogwyr a'i gyfeillion gwresog i ni gelu oddiwrthynt y cyflwr y mae ynddo yn bresenol, a'r perygyl sydd o'i golli. Trwy rag-weled drwg gellir yn fynych ei ragflaenu.

Ond cyn cynnyg unrhyw sylwadau, gadawer i ni nodi ffaith neu ddwy ag sydd i'n tyb ni gymaint i'r pwrpas a dim oll. Ac yn gyntaf, er darfod i'r amser waethygu yn fuan wedi ymddangosiad yr Ymofynydd, gan fyned yn waeth waeth oddiar hyny hyd yn awr, rhaid dywedyd fod y cyhoeddiad wedi cael derbyniad llawer mwy helaeth nag yr oeddid yn ei ddisgwyl, na braidd yn ei obeithio pan y

gosodwyd ef ar droed. Yn nesaf, nid yw ein cyhoeddiad wedi cael myned i ddyled lawer etto; a phe gallesid ond danfon y taliadau yn llawn i ni (fel y gwnaed o amryw gymydogaethau) buasai rhyw ychydig bunnoedd yn awr dros ben, yn llaw y Cyhoeddwr tuag at ddwyn y gwaith yn y blaen. Barnasom mai cyfiawn oedd rhoddi hyn o gyfrif a chydnabyddiaeth am y cymmorth a dderbyniasom hyd yr awr hon.

Barnwn hefyd y byddai yn briodol i ni nodi yma, ar y fyr eiriau, Pa beth mae'r Ymofynydd *wedi* ei wneuthur—pa beth y mae yn *amcanu* gwneud os cynhelir ef —a pha beth sydd yn anghenrheidiol i wneud *ymhellach*, tuag at ei gadw ar ei draed a'i wneuthur yn fwy effeithiol.

1. Os nad yw yr Ymofynydd, yn ystod ei fodoliaeth, wedi bod o un budd mawr mewn rhyw ffordd arall, y mae o leiaf wedi gwneud hyn o beth:—y mae wedi dangos a phrofi *y gellir cynnal y fath gyhoeddiad yn rhwydd ddigon os ceisir*. Fel *pioneer* ffyddlon, y mae wedi spïo a phrofi ansawdd y wlâd, symud rhwystrau a pharotöi y ffordd i gyhoeddiad a fyddo yn well nâg ef, ond yn amddiffyn yr un egwyddorion. Os ar ôl prawf y gwelir mai fel arall y mae—fod yr Undodiaid ac ereill o rydd-ymofynwyr y Deheubarth, o ddiffyg cais a threfn neu ryw achos arall, yn methu cynnal cyhoeddiad at eu hachos---bydd yn siomedigaeth a thristwch mawr i ni.

2. Fel cyhoeddiad enwadol y mae yr Ymofynydd wedi bod yn gyfrwng parod a ffyddlon, er gosod ger bron y cyhoedd syniadau Undodaidd. Yn wir, i'r amcan hyny yn benaf y gosodwyd ef ar droed. Y mae o fis i fis wedi cyhoeddi traethodau ar wahanol byngciau crefydd, ynghyd âg addysgiadau mewn hanesiaeth anianyddiaeth &c. er adeiladaeth a diddordeb i'r ieuengctyd &c. A fydd y cynulleidfaoedd Undodaidd bellach yn foddlon i fod heb hyn? Yr ydym yn gallu hysbysu oddiar wybodaeth fod yr Ymofynydd yn cael ei dderbyn a'i ddarllen yn awyddus mewn llawer o gymydogaethau, lle nad oes pregethu Undodiaeth.

3. Ac dir rhydd-ymofyniad crefyddol---y mae yr Ymofynydd, gallwn ddywedyd yn hyf, wedi dangos chwareu têg i'w ohebwyr oll bawb fel eu gilydd---tystied ein gohebwyr hyny ag sy'n groes i ni yn eu syniadau crefyddol.

4. Ac am lenoriaeth Gymreig, hanesiaeth ac anianyddiaeth---yr ydym yn camsynied yn fawr os nad ellir dywedyd nad yw ein cyhoeddiad, yn y pethau hyn, yn ôl ar y goreu o'i gydfisolion.

Disgwylir ymhellach ond odid i ni ddywedyd yn fyr, pa amcanion a disgwyliadau sydd genym o barthed i'r Ymofynydd, os caniateir i ni ddwyn y cyhoeddiad yn y blaen.

Y mae egwyddorion ein golygiaeth, hyderwn, yn ddigon adnabyddus erbyn hyn. Nid ydym yn gweled fod eisiau cyfnewid yr un o honynt. Byddwn yn barod i dderbyn cyngor yn gystal a chynhorthwy; ac yn ddiolchgar am y naill fel y llall —nid heb ymdrechu (gobeithiwn) yn barhâus am fwy o wybodaeth a medrusder, a doethineb i drefnu ein matterion yn y modd goreu, er cyrhaeddyd amcan gwreiddiol yr Ymofynydd---taenu gwybodaeth fuddiol ac yn benaf gwybodaeth o egwyddorion yr Efengyl ymhlith ein cyd-genedl y Cymry. I'r diben i gyflawni yr amcan hwn yn effeithiol, ac ar yr un pryd heb gau allan ddarnau ar wybodaethau cyffredinol, buddiol a diddorol, y mae wedi bod ar ein meddwl, mor gynted ag y gwelir gwelliant ar yr amseroedd, i gynnyg ychwanegu rhyw faint at faintioli yr Ymofynydd o bryd i'w gilydd, fel y byddo defnyddiau da a phwrpasol wedi cael eu hanfon attom, ac i gwnni'r pris yn gyfattebol. Fel y mae, gyda'i nifer presenol o dderbynwyr, nis gall gael ei werthu am *dair ceiniog* a thalu ei ffordd. Fe ŵyr pawb mai *nwyfau da*, nid rhai o isel bris, yw y rhattaf yn y pen draw. Paham nad ymdrechir i wneuthur ein cyhoeddiad y fath a fyddo yn

deilwng o'r enwad sydd wedi ei osod ar droed, ac o'r egwyddorion y mae yn proffesu eu hamddiffyn?

Pe rhoddasid i'r Ymofynydd yr annogaeth a'r cynhorthwy hyny a allasai yn gyfiawn ei ddisgwyl, yr y'm yn sicr y buasai yn llawer amgenach nag y mae wedi bod hyd yn hyn, ac yn fwy effeithiol. Yr ydym ni wedi gwneud ein goreu, a hyny gyda thrafferth ac anghyfleusderau lawer. Nid ydym yn achwyn, nac ychwaith yn ymffrostio. Y mae dau neu dri, fi welir, o'n cydweithwyr hefyd wedi llafurio yn ddiwyd ac yn ffyddlon. Mae gwell gwobr yn eu haros na'r gydnabyddiaeth wresoccaf a allwn ni wneuthur iddynt.

Gadawer i ni yn ddiweddaf nodi dau neu dri o bethau ag sy'n ymddangos i ni yn angenrheidiol os mynir cadw yr Ymofynydd ar ei draed, a'i gadw mewn cyflwr o fywyd ac effeithioldeb.

Yn gyntaf, y mae yn angenrheidiol i wneuthur ymdrechiad i gael rhagor o dderbynwyr iddo; neu ynte i osod rhyw drefn ar droed tuag at ddigolledu y Cyhoeddwr. Nid gwiw peidio âg edrych ar y ffaith hon. Yr ydym o'r farn y byddai yn well gan wir gyfeillion yr Ymofynydd i dalu ceiniog yn rhagor am dano bob mis, nâ'i weled yn cael ei waethygu trwy wenieithio i chwaeth lygredig er mwyn poblogrwydd. Y mae ein Cyhoeddiad fel y rhan fwyaf o'i ddarllenwyr, fel mae gwaetha'r modd, wedi dioddef o herwydd gwasgfa yr amser. Gwyddom fod y byd yn wan ar laweroedd yn y dyddiau hyn. Dichon fod rhai o achos hyny yn ôl yn eu taliadau, neu wedi gorfod rhoddi i fynu derbyn yr Ymofynydd. Ewyllysiem ni gyd-ddwyn â'r rhai'n yn ôl ein gallu. Dan y fath amgylchiadau gobeithiwn y bydd y cryf yn barod i helpu'r gwan ac i ofalu na fyddont o herwydd caledi yr amser yn cael en hymddifadu o'r priodol ymborth a chysur i'r corff a'r meddwl.

Mewn rhai llefydd, fel yr ydym yn clywed, yr ydys wedi cael allan ei fod yn *gynnildeb cyflëus* i ddau neu dri chymydog i *joino* i gymeryd Ymofynydd rhyngddynt. Dichon fod rhai o honynt yn gwneud hyn oddiar gydwybod ei bod yn ddyledswydd arnynt i fod mor gynnil ag y gallant yn mhob peth. Ond beth bynag am hyny, pe dilynid yr esiampl yn gyffredin byddai diwedd yn fuan ar yr Ymofynydd.

Nis gwyddom pa fodd i geisio gan ein dosparthwyr caredig a ffyddlon i wneuthur rhagor nag y maent wedi ac yn ei wneud drosom. Ond gan nas gallwn, nac yn bersonol na thrwy genad, ymweled â'r cynulleidfaoedd a'r cymydogaethau lle y derbynir ein cyhoeddiad, rhaid i ni ymorphwys ar ein cyfeillion a chyfeillion yr Ymofynydd, y bydd iddynt gymeryd ein hachos dan eu gofal, a gwneud eu goreu i gael derbynwyr newydd, ac i osod trefn ar droed lle byddo eisiau tuag at anfon attom y taliadau yn brydlawn. Dan yr amgylchiadau y mae hyn yn anhepcorol.

Ond yn ddiweddaf ac yn benaf oll, yr ydym yn *appelio* at ein brodyr Undodaidd, y rhai ydynt yn proffesu bod y gwirioneddau a ddaliant o bwys ac iechydwriaeth i'r byd. Dyma gyfle teg iddynt i osod eu golygiadau ger bron y cyhoedd. Disgwyliwn gan hyny yn obeithiol wrth ein cyfeillion myfyrgar a deallus, yn enwedig y rhai a feddant ar fanteision dysgeidiaeth—y byddant hwy ac eraill o rydd-ymofynwyr Cymru i'n hanrhegu ni a'n darllenwyr â dewis-ffrwyth eu hymchwiliadau a'u myfyrdodau. Pe gwneid hyn fyn galonog, a rhai a wyddys am danynt ond gwneuthur eu rhan, cedwid ar glawr drysorau gwerthfawr i'r oes a ddêl, ac ni fyddai un gofal na phryder am barhâd yr Ymofynydd dros rai blynyddau etto, nac am ei ddefnyddioldeb na'i effeithioldeb chwaith.

Ni chaniateir lle i ni ddywedyd rhagor ar y pryd hwn. Teimlwn yn wir ddiolchgar i'n gohebwyr a'n dosbarthwyr serchog a ffyddlon. Terfynwn, bellach, gan ddymuno BLWYDDYN NEWYDD DDA i'n darllenwyr oll.

Penybont, Rhagfyr 22, 1849. Y GOLYGYDD.

TRAETHAWD AR FARDDONIAETH ARWYDDFEIRDDIOL CYMRU.

Rhagymadrodd—Parhâd o tudal 267, *Cyf.* II.

Ychydig yn ddiweddarach, cawn Tudur Aled, cyfoesydd Lewis Glyn Cothi, wrth ddesgryfio ei deilyngdod barddonol, yn dangos nad oedd yr urdd Arwyddfeirddiol wedi ei ffurfio yn ei amser ef, sef A.D. 1450. Mewn hen ysgrif, dywedir ei fod yn ddyledswydd ar bob bardd wybod *Tri chof ynys Prydain,* sef, 1. Hanes Brenhinoedd a Thywysogion Prydain a Chymry; 2. Gwybodaeth am hanniad ac iawn ystyr pob gair Cymraeg, a gofal am gadwedigaeth y iaith mewn purdeb a gogoniant; a 3. Chof am achau boneddigion, eu harwyddion milwrol, a'u tiriogaethau cyfreithlon.*

Tudur Aled, ym mhriodas Ifan ap Dafydd ap Ithel Vychan o Northopp yn Sir Ddinbych, a roddodd brawf o'i wybodaeth o bob un o'r *Tri chof,* ac a gafodd ei wobrwyo yn gyferbyniol, fel y dywed ym marwnad y pennaeth hwnnw:—

"Cyntaf neuadd im graddwyd
Vy oror llys f'eryr llwyd
Am *Dri chof* im dyrchafodd
Yn neithior Nwn *a thair rodd;*"

sef un rhodd am bob *cof.* Yr oedd y gelfyddyd mewn bodoliaeth, ond nid oedd yr enw etto yn gyffredin, nac un urdd annibynol yn hanfodi. Ond ymhen cant a hanner o flynyddoedd, tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, ceir yr enw "Arwyddfardd" yn ei lawn ogoniant. Y Dr. Sion Dafydd Rhys, yn ei Ramadeg Lladin a Chymraeg, argraffedig yn 1592, a ddengys,

"*Rhywieu Cerddorion*

Pribhardh. Posbhardh. Arwydhbhardh, Pwybynnac a dhywetto 'i bhod yn Arwydhbhardh, gwybydhed achoedh Brenhinoedh a' Thywyssogion a' chybharwydhyd odhiwrth y tri Phribhardh ynys Prydain, nid amgen, Myrdhin 'ab Morbhrynn a' Myrdhin Emrys, a Thaliessin Ben Beirdh."‡ Mewn man arall† yr wyf wedi dangos nad oedd ond un Merddin mewn bodoliaeth, a chan nad oes un rhith o farddoniaeth herodaidd yn ngwir waith Taliesin, nid oes gofyniad am brofion gwahanol, nad oedd un berthynas rhwng yn Cynfeirdd ac arwyddfarddoniaeth. Yn amser Sion Dafydd Rhys, yr oedd y gelfyddydd herodaidd yn dra blodeuog. Yn Nghymry yr oedd Gutyn Owain yn rhagori mewn arwyddfarddoniaeth ar feirdd ei oes (1460-1420); ac y mae Sion Dafydd Rhys yn cyfrif Twm Shon Catti, sef "*Thomas Sion,* alias *Moethen* o Borth y Phynnon yn ymyl Trêbh Garon," "yn odidoehabh, a phennabh, a pherpheithiabh, a hynny yn ddiamheu." Ni welais eirioed un llinell farddonol o waith Thomas Jones ac nid wyf yn gwybod fod dim yn gyhoeddedig, ond gan fod yn ychwanegol at y crybwylliad uchod, Edward Llwyd* yn ei gyfrif yn brydydd diweddar (poeta recens), ac yn dweud fôd ganddo ef mewn Llyfr papyr beth o'i waith, dichon ei fod yn fardd.

Yn yr holl grybwylliadau uchod, yr oeddent y beirdd yn Arwyddfeirdd hefyd; ac nid oedd arwyddfarddoniaeth, ond y drydedd rau o'r gelfyddyd farddonol. Gan hynny os nad oedd, &c.

---

* Vol. k. k. k. p. 207-9. Carte's MSS. Bodleian Library, Oxford. ‡ The Literature of the Kymry p.p. 124 and 208-211. † Am wybodaeth helaethach Gwel Hanes Cymru tudal 591.
* Arch Britt. Vol. 1, p. 264.

PENNOD I.

O esgyniad Owain Gwynedd hyd farwolaethau Llewelyn a Dafydd ab Gruffydd.

1137—1283.

Oddiwrth y ffeithiau rhagflaenol, gellir casglu fod llawer o gamsyniadau yn hanfodi mewn perthynas i wrthddrychau herodaidd; ac mor gyffredin ynt y camgymmeriadau hyn, nes fod ysgrifenydd gwybodus yn achwyn mai

"One of the constant difficulties which arise, is the erroneous practice of giving armorial bearings to the most celebrated Ancestor of Ancient Families, *before* "Coat Armour" was iu use. *The Original Charters of Neath, by G. G. Francis, Esq. F.S.A.*

Arferir yn yr oes hon ddirmygu pob celfyddyd feddylgar a golygiadol, gan ystyried hynny yn unig o bwys yr hyn a dodd yn *nghrusibl* y fferyllydd, neu a rydd arddangosiad i'r rhifyddwr. Effeithia y parch ochrog hyn i'r celfyddydau naturiaethol, lawer o ddrwg i dduwiniaeth, ieithyddiaeth, a herodaeth; ond nid yw y drwg i gyd yn cael ei achosi gan y pleidgarwch hyn, oherwydd fod llawer o'r amharch a roddir i herodaeth yn cael ei achosi gan uchel glod a dwndwr afresymol herodwyr eu hunain. Bu i herodaeth fel llawer o arferion ereill ddechreuad, rhwysg, a diweddiad. Yr oedd yn taro amser, ac yn gyssefin a daliadau oesoedd tywyll a rhyfelgar, ond mae yr amser wedi myned heibio, a ffolineb i neb obeithio am weled ei rhwysg mwy.

Yr hanes gyntaf sydd gennym am arf-addurniadau a sonia am luniau anifeiliaid ar dariannau y Cimbri (Tacitus). Y pryd hynny nid oeddynt yn arwyddo presennoldeb unrhai pendefigion yn neillduol, ond y genedl yn gyffredinol. HWN OEDD Y GRADD CYNTAF. Wedi hyn cymmerodd un pendefig yr arwydd hwn, ac arall arwydd gwahanol. HWN OEDD YR AIL RADD. Yn ystod amser trosglwyddwyd y gwahanol arwyddion yn etifeddol, ac adnabyddwyd teulu y rhyfelwr oddiwrth ei bais-arfau. HWN OEDD Y TRYDYDD GRADD, a'r olaf. Yr oedd y ddwy radd flaenaf yn adnabyddus yn Nghymru oddeutu y rhan olaf o'r 12fed ganrif; a dangosir yn y bennod yma, pwy cymmaint oedd yr arfer wedi ymdaenu.

Wrth ysgrifennu y traethawd hwn bydd gennyf ddau ddiben. 1af. Rhoddi hanes tyfiad herodaeth. Ail. Barnu teilyngdod y farddoniaeth yn mha un ei desgryfier.

I.—DURWISGOEDD, AC ARFAU.

Herodaeth yw y mud ddywediad yr hwn ar faes brwydr a alluogai y deiliaid i adnabod eu blaenor, ac ymresu eu hunain wrth ei ochr—yr arwydd trwy ba un yr ednebyddid ef yn mhoethder brwydr, ac a'i gwahanid oddiwrth bendefigion ereill, pan nad oedd ei wyneb i'w weled na'i lais i'w glywed, a phan na ellid ei adnabod ond wrth ei helm, neu yr arwydd ar ei ysgwyd; a barddoniaeth herodol yw y rhan hynny o gyfansoddiad prydyddol, yr hwn ar ol traethu hanes gwrol a milwriaethol pendefig, a osod ein taer sylliad ar yr arwydd crybwylledig. Nid yw arwyddfeirddiaeth mor gynnwysfawr a herodaeth farddonol, o herwydd na pherthyna yn ol ystyr y gair i ddim ond arwyddion (Devices); tra ar y llaw arall yr oedd yr herodr yn cyfrif achyddiaeth, arwyddiaeth, a barddoniaeth arwraidd (Heroic Poetry) o fewn i'w derfynau ei hun.

O farddoniaeth gwir herodaidd, y darnau cyntaf ydynt Englynion Llewelyn ab Madawc, Tywysog Powys, gan *Llywarch Llew Cad.* Y mae y brydyddiaeth yn dda rhagorol; rhoddir y cyfeiriadau herodaidd yn rhyfedd o eglur; ac yn wir nis credaf fod yn holl farddoniaeth herodol Cymru gymmaint o iawn-ddeall a chyfrwysder *dramataidd,* a ddangosir gan y bardd wrth adrodd ymddangosiad cyntaf y pendefig;

"A ofynnwys neb—oni bydd ofal gan ddynion
Cyn cochi ei haiarn orchudd,
Pa was a wisg ei las arfau,
Pa wron yw yr uchelfrydus o'r blaen*;

Wedi arwaen ei wron ger ein bron, anfon y bardd ef i ganol yr ymladdfa; a mawrheir harddwch yr arddangosiad gan ei iaith ofyniadol.

"Pwy biau y darian buanfydiad o'r blaen
A'r ddisglaer waywffon ger ei hwyneb?
Pwy yw'r dewryn, llew digter frwydr-wych
A'i dal hi gerfydd ei dwy lawgarn?"

Ar ol dwyn y milwr gwrol ger ein sylw, a gofyn yr holiad am enw gwr mor lew, dengys rhagoriaeth herodaethol, pan ddywed,—

"Tarian Llewelyn pennaeth breintiau gwlad
Yw honno er hanniad,
Tarian ac ysgwydd ynddi
Tarian a dychryn ger ei bron."

Nid oes gennyf amser i fyned yn fanwl dros y disgryfiad helaeth a roddir yma o wisg filwraidd yr oes; ond edrychaf yn unig ar y rhan perthynol i'r traethawd. Dengys y bardd allu rhagorol yn y cyfansoddiadau hyn; ac ar ol amryw o fân ddesgryfiadau gofyn,

"Pwy biau yr *helm* gron gochwedd y cadfaes,
A *llun blaidd ffyrnig* ar ei choppa?
Pwy yw'r dewr uwch y grymmus farch gwyn?
Pa beth ei enw, mor hynod ei radd?"

Mewn amryw fannau gwelir y geiriau "draig" "dragon" "llew" "blaidd" ac ereill mewn cysylltiad ag enwau pendefigion Cymreig; ond anhawdd iawn deall pa un ai arwyddion herodaidd, ai ffugyrau prydyddol ydynt. Tybiaf weithiau mai y blaenaf ydynt ym marddoniaeth yr oesoedd dan sylw, gan nad yw cyfeiriad herodaidd diammheuol Gruffydd Llwyd, yn ei awdl i O. Glyndwr, pan ddywed,

"A *phen draig* ar ei ffon draw"

nemawr mwy eglur na'r geiriau "draig Mon" yn awdl Gwalchmai i O. Gwynedd; ond yn y llinellau dan sylw y mae yn ddigon eglur mai arwydd herodaidd oedd "llun blaidd ffyrnig." Rhyfeddais weled cyfeiriad mor eglur cyn gynnared a 1160; ond pan ystyriais am yr undeb oedd yn hanfodi rhwng Tywysogion Powys a Brenhinoedd Lloegr, diflanodd yr anhebygolrwydd, gan mai yn Mhowys y dylasem edrych am y siamplau cyntaf o'r arferion newydd. Er hynny y mae yn debygol mai Llewelyn oedd y cyntaf i fabwysiadu y drefn newydd, gan nad oes sôn gan Cynddelw am un arwydd addurniadol o eiddo Madawc ei dad; a gellir deall oddiwrth y geiriau,

"Pa beth ei enw, mor hynod ei wedd"

ei fod yn ymddangosiad hollol newydd. Gellir deall hefyd nad oedd arwyddion herodaidd wedi dyfod yn etifeddol. Yn wir nid oes un prawf eglur fod arwydd-

---

* Rhoddir yr Englynion yn iaith eglurhaol y Parch. T. Price, Gwelir y gwreiddiol yn Hanes Cymru tudal 567.

ion pennodol yn perthyn i rai teuluoedd yn hytrach na'u gilydd o fewn terfynau y bennod yma. Fe allai fod Hywel ab Owain yn cyfeirio at *frain* herodaidd pan ddywed,

"Pan vei lawen vrein, pan vrysei waed;"

cadarnheir y dyb gan Cynddelw yr hwn mewn Awdl i Maredydd ab Madawc a sonia am yr un adar,

"Yn llwythawg yn llithiaw brein;"

ac ymddengys ymron fel sicrwydd yn,

"Llawer bran sy'n eisiau i'r brenin heddyw."

Tybiaf weithiau fod rhyw fath o urdd milwraidd mewn perthynas ac ar enw y frân, gan fod y dywediad "Dafydd ab Gruffydd

A wnaeth addaw adar ar gynran,"

a'r rheini yn gigfrein, yn ein tueddu i feddwl mai rhyw anrhydedd rhoddawl gan Dywysogion Cymru oedd.

II.—GWISGOEDD.

Cymmerodd cyfnewidiad le yn anrydeddus wisgoedd Cymru, rhwng teyrnasiadau Owain Gwynedd, a'r Llewelyn olaf. Yn Awdl rhagorawl Gwalchmai gwelir oddiwrth y geiriau "llurygawr glas" effeithiau Normanaidd; ac hyfforddir ni gan y geiriau "rheidrudd ri," fod Owain yn adnabyddus yn nghanol y frwydr drwy ysgwyddrwy goch (red scarf). Gwn fod gwahanol farnau mewn perthynas i ystyr y geiriau. Ieuan Brydydd Hir a'u deall i feddwl "y brenin cochwaeawr;" "ffrydiau cochion" a feddylir, medd Carnhuanawc; a chyfieithir hwynt yn y Cambrian Register i "blood stained chief;" ond pwy bynag a ddarlleno linellau Cyuddelw i Hywel ab Owain,

"Gnawd addaw iddaw a ruddier o'i law,
A *rhuddfeirch* am danan,—
Gnawd im *ri ruddfeirdd* o faran,
A rhoddi *rhuddwisg am danan*,
Gnawd y gwna ruddlanw amgylch Rhuddlan gaer,
A *rhuddliw* arddylan,"

a wêl yn ebrwydd mai coch oedd lliw anrydeddus wisgoedd yr oes. Dywedir yn y Mabinogion fod Arthur yn cysgu ar wely o *satin* a velvet ysgarlad; sonia Dafydd Benfras am

"——rhoddiad rhudd aphali;"

a barna Lady Charlotte Guest ar awdurdod St. Pelagie, mai melfed coch oedd gwisgoedd goreu marchogion y 12fed. ganrif. Ond ymddengys oddiwrth amryw o englynion o oes Llywelyn ab Gruffydd, mai "Gwyn a Gwyrdd" oeddent ddewis liwiau y pendefig hwnw, fel y tybia Sir Samuel Meyrick; a chadarnheir y golygiad yma gan Lewis Glyn Cothi, yr hwn a sonia am wisgoedd gwyn a gwyrdd "y beirdd, a chan Sir John Skelton "Poet Laureate" i Harri'r 8fed, yr hwn a ddywed —"the Kynge to me an habit gave of the Kynge's colours white and green."

Deuwn yn awr i sylwi ychydig yn feirniadol ar farddoniaeth y can mlynedd a haner dan sylw. Ar ol beirniadaeth Esgob Percy, afraid dweud dim am Awdl Gwalchmai; diles fyddai belaethu ar yr englynion i Lywelyn ab Madawc: ac nid oes nemawr ond tarddiad cynghanedd yn teilyngu ein sylw. Tua diwedd teyrnasiad Llewelyn ab Gruffydd, collasant y beirdd olwg ar y gwahaniaeth rhwng gwir ysbryd barddonol, a chyfrwysder mewn gwersyddiaeth. Diwedda Dafydd Benfras 41 llinell yn "n" a dechreua ddeg llinell ae "oedd;" Einiawn ab Gwgan a ddiwedda 28 yn "awl," 44 yn "ein," 36 yn "ad," a 30 yn er; Gwalchmai a der-

fyna 21 yn "i;" Einiawn ei fab, 56 yn "i;" Prydydd y Moch, 68 yn "ar," 36 yn "arn," 42 yn "o," a 64 yn "int;" Llygad Gwr, 36 yn "edd," 32 yn "i," 36 yn "dd," 61 yn "aith," a 45 yn "au;" Gwilym Ddu a derfyna 32 yn "edd," 30 yn "yd," a dechreua 48 yn "n;" ond nid oes darn o wir farddoniaeth yn eu holl gyfansoddiadau herodol. Ydyw ef ddim yn beth rhyfeddol fod dynion gwybodus a synwyrol yn methu deall y gwahaniaeth rhwng y fath faldordd a chymhendod dwl hyn, a iaith felus, sylweddol, ac egniol! Rhoddaf enghraifft o waith Prydydd y Moch, prif-fardd ei oes, i ddangos gwaelder rhannau o'i farddoniaeth, a gwendid ei ddrychfeddyliau;

"Teyrnllu, teyrnedd, teyrnllaw, teyrnlliw,
Teyrnllin teyrnas, terfysg torment."

ydynt y llinellau gwaelaf a wělais er ys amser, er eu bod yn llawn gystal a'r rhan fwyaf o farddoniaeth herodaidd beirdd y 13ddeg ganrif. Cynghanedd oedd achos y dirywiad pryd hynny, fel ac y mae wedi bod mewn amseroedd diweddarach. Rhaid i brydyddiaeth fod yn gynnwysedig o naill ai swn neu synwyr. Hyd yn hyn mae gormodd o'n cydwladwyr wedi mabwysiadu y blaenaf, yn hytrach na'r olaf; ond gobeithiaf y gwna siampl Gwenffrwd, barn Caledfryn, a'u synwyr eu hunain eu hadferu cyn bo hir o'u tywyllwch anffodus. Gyrrwn yn ein blaen i ymchwilio am ryw beth gwell.

(PEN. II. *yn y nesaf.*)

UNDOD DUW.

LLYTHYR I.

Mr. Ymofynydd,—Y mae y pwngc mawr, o Undod Duw, y pwngc mwyaf ei bwys yn wir ond caracter gwrthrych ein haddoliad, wedi cael aros, hyd yn hyn, ymron yn ddisylw gan ohebwyr yr Ymofynydd. Yr achos nad anturiais i hyd yn bresennol i'r gorchwyl o esgrifenu ar undod diranedig y Jehofah mawr, ac yn erbyn trindod ac eilun-addoliaeth y lluaws, oedd, fy mod yn disgwyl yn barhaus i ryw un mwy galluog na myfi i gymmeryd y gwaith mewn llaw: eithr yn ofer y bu fy nisgwyliad am fwy na dwy flynedd bellach; ofer gan hynny i mi ddisgwyl yn hwy. Y mae ein gelynion, feddyliaf, ymron gwaeddi buddugoliaeth, os nad yw rhai o honynt eisioes wedi dechreu crasu bloedd, na faeddia'r Undodiaid ddim cyffwrdd a'u heilun anwyl hwynt; tra, o'r tu arall, y mae ein cyfeillion, rai o honynt o leiaf, ymron gwan-galoni wrth hir ddisgwyl gweled rhyw un yn cyfodi baner yr Unig Mawr, a sefyll yn wrol dros ogoniant Duw Israel, ïe a Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist hefyd, yr hwn ni rydd ei ogoniant i arall na'i fawl i ddelwau cerfiedig. Heb ddywedyd rhagor ar yr angenrheidrwydd o esgrifenu ar bwngc o gymaint pwys, yr wyf yn addaw gwnend fy ngoreu i'w drin mewn modd teilwng o'r Ymofynydd. Er arbed y drafferth o enwi awduron wrth fyned ymlaen, digon unwaith am oll, yw dywedyd fy mod yn meddwl gwneuthur defnydd helaeth o sylwadau Priestley, Belsham, Lindsey, Christie, Grundy, Barker, a Wilson's Illustrations and Concessions. ac yn enwedig yr olaf. Bellach ynte âf ymlaen at fy ngorchwyl maith a mawr ei bwys.

Fel *motto* yr wyf yn cymmeryd rhan o eiriau Paul at y Corinthiaid, neu efallai eu geiriau hwynt atto ef, "I ni nid oes ond un Duw, y Tad." Gwynfyd pe byddai pob eglwys a phlaid trwy Gristnogaeth yn mabwysiadu'r iaith hon, yn credu'r geiriau hyn. "I ni nid oes ond un Duw," sydd iaith gyffredin: y mae sectariaeth ei hun yn gorfod plygu ei phen a dwyn ei thystiolaeth dros undod Duw; y mae St.

Athanasius ei hun, ar ol ei holl frawl dwl, yn gorfod dywedyd, "Etto nid ydynt dri o Dduwiau, eithr un Duw." Felly, "I ni nid oes ond un Duw" a gyfaddefir gan bawb; ond os gofynwn pwy yw'r un Duw hwn, bydd yr atteb yn wahanol iawn i iaith syml eglwys Corinth. "I ni nid oes ond un Duw, y Tad, y Mab". *Stop* weithian, dyna *ormod*; dyna 'chwaneg nag sydd yn yr adnod. Na stopaf, medd trindodiaeth, mi *fynnaf* ragor na hynna etto, ar eich gwaethaf chwi a'r Apostol. "I ni nid oes ond un Duw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." Ond os gadawn i'r ychwanegiad hyn ymlusgo i mewn, daw'r pagan eilun-addolgar, o hono yntau ymlaen, ac a haera nad yw rhif y duwiau ddim yn gyflawn nes cael Iau, Apollo, Mercher, Sadwrn &c. yn eu plith. Beth sydd i'w wneud yngwyneb y fath ychwanegiad *ad infinitum* hwn at y duwdod? Dim ond dychwelyd yn ol at y motto, "I ni nid oes ond un Duw y Tad."

Er fod gan y paganiaid eu haneirif dduwiau, duw at bob amgylchiad, duw'r clefyd, duw'r iechyd, duw'r tir a duw'r mor; duw'r rhyfel a duw'r heddwch: yr oedd gan y Lladinwyr a'r Groegiaid dysgedig eu duw at bob dydd o'r wythnos, ac at holl amgylchiadau bywyd, ie a'n hen deidiau ninau, y Brythoniaid gynt hefyd; er hynny y mae'r Cristion yn rhwym wrth ei *fotto*, "I ni nid oes ond un Duw y Tad," at bob diwrnod ac amgylchiad; ac y mae'n eithaf digon hefyd. Os yw eglwys sefydledig ein gwlad a'i thrindod; ac os na phlygwn i'r ddelw fawr, "Diau y collir ni'n dragywydd;" os yw'r holl enwadau crefyddol oll ond un, a'u trindod; y Methodistiaid Calfinaidd a'u trindod; yr Independiaid a'u trindod; y *Baptist* a'u trindod; y Methodistiaid Wesleaidd a'u trindod, er hynny i'r Cristion nid oes, ac, nis gall fod ond *un* Duw y *Tad*. Pam hynny, meddwch? Am yn gyntaf mai dyma lais unol creadigaeth Duw.

Yr un amcan a welir, hyd eithaf ymchwil y cyrhaeddiadau goreu, trwy holl arddaloedd byd, trwy holl fydoedd aneirif yr eangder maith. Y mae pob cymydogaeth, pob ardal, pob gwlad, pob planed, pob seren, yn eu hiaith, yn dangos UN mawr, anfeidrol mewn gallu, digamsyniol mewn doethineb, a difesur ei ddaioni. Y mae *undeb amcan* i'w ganfod ymhob man, o'r drychfilin distadl i fynu at ddyn, arglwydd y greadigaeth isod, delw Duw. Y mae amcan cariad i'w chanfod yn trefnu pob amgylchiad. Y mae'r dwfr yn llawn trigolion; y llwch yn llawn bywyd; yr awyr yn fyw gan greaduriaid; ond nid oes greadur byw yn un man heb fod yn addas i'r amgylchiad y gosodwyd ef ynddo. Nid yw'r pysg ddim wedi eu gosod i nofio'r eigion heb gymmwysder i'r lle: mae'r llygaid, y dannedd, y cylla, yr esgyll, yr holl gorph fewn ac allan, wedi eu gwneuthur yn berffaith addas at y dwfr. Felly'r aneirif greaduriaid a breswyliant y ddaear, ac a ehedant gyda brys mellten trwy yr awyr deneu. Nid mewn un man yn unig o greadigaeth Duw y mae hyn yn cymmeryd lle, ond pob man heb yr eithriad lleiaf. Y mae hyn yn dangos *fod* UN mawr anfeidrol.

Gan fod undeb amcan yn dangos *un Bod*, y mae holl briodoliaethau'r Bod mawr hwn yn dangos nas gellir *mwy nag un*. Y mae yr un Bod hwn yn hollbresenol, nid oes lle i ragor, hyd yn oed mewn meddwl. Duw yn llenwi yr un man, nid dau ond un wedi'n i bob pwrpas; y mae'r un hyn yn hollalluog i gyflawni ei holl amcanion, ac nid oes angen rhagor: a phe ychwanegid myrdd o bersonau holl-alluogion, ni wnaent gyflawni dim yn rhagor nag un, ac felly byddent oll yn *afreidiol* ond *Un*: y mae'r Bod mawr hwn etto yn berffaith ddoeth a chariadlawn, yn ewyllysio 'n dda i bawb; yn eithaf digon i bob peth, ac ni fynn y meddwl ystyriol *ond* EFE.

Etto nid oes ond *un* Dnw y TAD, am mai dyma lais cyffredin yr Hen Destatament. Mynych y dywedir wrthym; "deuwch i'r Beibl; yno y mae ein hathrawiaeth ni; does a fynnom ni a'r rheswm cnawdol yna sydd gennych." Ar eich cais

ni a ddeuwn i'r Beibl; ond beth i wneud o hono heb reswm, nis gwn. Ni a ddechreuwn ynte gyda geiriau Moses wrth bobl Israel, "Clyw Israel, yr Arglwydd ein Duw un Arglwydd yw." *Un* Jehovah sydd yma; yr unig un a all ddywedyd *Ydwyf* yr hwn *Ydwyf*. *Ydwyf*, sylwch, ac nid *ydym*, yw'r ymadrodd. Gwir yw fod y gair hebraeg am Dduw (Elohim) yn y rhif luosog yn yr adnod uchod; ond ni gawn sylwi ar hyn etto wrth drin y gwrth-ddadleuon. Y mae'r prophwyd Zechariah (14. 9.) yn dywedyd, "A'r Arglwydd a fydd yn frenhin ar yr holl ddaear: y dydd hwnnw" (gwawried y boreu mâd) "y bydd *un* Arglwydd a'i *enw* yn *un*." A'i *un enw*, debyg, yw Tad, Mab, ac Ysbryd? "Onid *un* Tad sydd ini oll," medd yr hen Falachi, "onid *Un* Duw a'n creodd ni?"

Ni a gawn etto, yn yr Hen Destament, mai yr Arglwydd yn UNIG sydd Dduw. Nehem. ix. 6. "Ti yn UNIG wyt Dduw, ti a wnaethost y nefoedd, nefoedd y nefoedd a'u holl luoedd hwynt, y ddaear a'r hyn oll sydd arni, y moroedd a'r hyn oll sydd ynddynt." Y mae per ganiedydd Israel yn canu mewn *strains* goruchel i'r gwirionedd hwn: Ps. lxxxiii. 18. "Fel y gwyppont mai tydi, yr hwn yn *unig* wyt Jehofah wrth dy enw, wyt oruchaf ar yr holl ddaear." A thrachefn yn Ps. lxxxvi. 10. dywed, "Canys *ydwyt* fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau; ti yn *unig* wyt Dduw." Yn llyfr y Deuteronomium, xxxii. 39. y cawn y geiriau grymmus hyn, "*Gwelwch bellach* mai *myfi*, *myfi* yw efe, ac nad oes Duw ond myfi." Yn Isai. xlv. 5. y darllenwn fel hyn, "Myfi ydwyf yr Arglwydd ac nid arall, nid oes Duw ond myfi: fel y gwyppont o godiad haul, ac o'r gorllewin, nad *neb ond* myfi: myfi yw'r Arglwydd ac nid arall." Cawn yr un iaith mewn lluaws dirif braidd o fannau eraill yn yr Hen Destament.

Y mae'r Hen Destament yn gosod allan etto nad oes neb *tebyg* i Jehofah. Exod. ix. 14. "Canys y waith hon yr anfonaf fy holl blâau ar dy galon, ac ar dy weision, ac ar dy bobl; fel y gwyppech nad oes *gyffelyb* i mi yn yr holl ddaear." Exod. xv. 11. "Pwy sydd *debyg* i ti, O Arglwydd, ymhlith y Duwiau, pwy FEL tydi, yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd, yn ofnadwy mewn moliant, yn gwneuthur rhyfeddodau." Yng ngweddi Solomon y mae geiriau grymmus etto, 1 Bren. viii. 23. "Ac efe a ddywedodd, O Arglwydd Dduw Israel, nid oes *neb* FEL *tydi* yn y nefoedd oddiuchod, nac ar y ddaear oddi isod." Y mae Dafydd yntau yn canu i'r un perwyl, Ps. lxxxvi. 8. "Nid oes *fel* tydi ym mysg y Duwiau, na gweithredoedd *neb* FEL dy weithredoedd di." A thrachefn dywed yn Ps. lxxxix. 6-8. "Canys pwy yn y nef a *gystedlir* a'r Arglwydd (y mae'r Mab a'r Ysbryd Glân cystadl ag yntau, ymhob ystyr, yn ol trindodiaeth) pwy a *gyffelybir* i'r Arglwydd ym mysg meibion y cedyrn? O Arglwydd Dduw y lluoedd, pwy sydd *fel tydi* yn gadarn Iôr, a'th wirionedd o'th amgylch?" Ps. cxiii. 5. "Pwy sydd *fel* yr Arglwydd ein Duw ni, yr hwn sydd yn preswylio yn uchel?" Isa. xl. 18-25. "I bwy gan hynny y *cyffelybwch* Dduw, a pha ddelw a osodwch iddo? I *bwy*, gan hynny, y'm *cyffelybwch*, ac y'm cystedlir, medd y sanct?" Isa. xlvi. 5-9. "I bwy y'm gwnewch yn *debyg* * * * cofiwch y pethau gynt erioed; canys myfi ydwyf Dduw, ac nid neb arall; Duw ydwyf fi ac *heb fy math*, yn mynegi'r diwedd o'r dechreuad &c."

Ymhellach etto, cawn yn fynych, fynych, yn yr ysgrythyrau nad oes neb yn Dduw *ond* Jehofah. Y mae hyn eisioes wedi ymddangos yn y dyfyniadau uchod; felly ni wnaf ddwyn ymlaen onid adnod neu ddwy. Isa. xliv. 6-8. "Myfi yw y cyntaf, diweddaf ydwyf fi hefyd: ac nid oes Duw *ond* myfi * * A oes Duw *ond* myfi? ïe nid oes Duw, nid adwaen i yr un." Hosea xiii. 4. "Etto myfi yw'r Arglwydd dy Dduw a'th ddug di o dir yr Aifft, ac ni *chai* gydnabod Duw *ond* myfi; ac nid oes Iachawdwr *ond* myfi." Cawn yr un iaith mewn amrywiol fannau eraill.

Y mae Duw etto yn yr Hen Destament a'r Newydd yn arfer rhagenwau a berfau yn y rhif unigol am dano ei hun. Mae yr holl adnodau a ddifynais eisioes yn ddigon i wirio'r haeriad hwn. "*Myfi* wyf Dduw, nid oes arall ond *myfi;* ydwyf yr hwn ydwyf yw enw anghyfranogol Duw; ac nid, ydym y rhai ydym. Ond i beth y gwnaf fline amynedd eich darllenwyr eg esiamplau, lle mae'r holl Feibl o'n tu ni. Nid yw ein gwrthwynebwyr eu hunain ddim yn *pretendio* fod ganddynt ragor na rhyw bedair neu bymp o adnodau yn croesi hyn: megis *gwnawn ddyn; awn a chymysgwn eu hiaith hwynt &c.* Os caniatta Duw amser ac iechyd i mi, yr wyf yn bwriadu sylwi ar yr ychydig sydd ganddynt, heb fod yn hir. Digon yw sylwi ar hyn o bryd, mai rhyw Feibl bach i'w ryfeddu fyddai Beibl y drindod, a chaniattau iddynt bob adnod a fynnant: ond beth, beth ddaw o'i *size* ef, os gellir dangos (fel yr hyderaf y gellir) nad oes dim a fynnant ag un o'r adnodau hynny chwaith!!

Etto pan yr annerchir Duw, neu y siaradir am dano, arferir y rhagenwau *ti* neu *ef* bob amser trwy yr holl Feibl. "Y nefoedd, na nefoedd y nefoedd nis gallant dy gynnwys *di,*" ac nid *chwi,* medd Solomon: "Bendigedig *wyt ti* Arglwydd Dduw Israel," medd Dafydd, "i *ti* Arglwydd y mae mawredd, gallu, a gogoniant yn perthyn." * * "Y cwbl yn y nefoedd ac ar y ddaear sydd *eiddot ti;* cyfoeth hefyd ac anrhydedd a ddeuant *oddiwrthyt ti;* a *thi* sydd yn arglwyddiaethu ar bob peth.—Canys *eiddot ti,*" nid fi, nid chwi, nid hwynt, ond "*eiddot ti* yw'r deyrnas a'r gallu, a'r gogoniant yn oes oesoedd," medd Crist. Ond pan y gwnaf luosogi adnodau, fel pe y gallwn arllwys y gyfrol sanctaidd. Dangosed rhyw un *ryw* adnod, o ddechreu Genesis i ddiwedd y Datguddiad, yn wahanol i hyn, os y gall; rhyw adnod lle y dywedir *chwi* wrth annerch Duw mewn gweddi. Mor *odd* fyddai clywed rhyw un ar ei liniau yn dywedyd, O Duw *bendithiwch, maddeuwch* i mi, *trugarhawch* wrthyf!! Mor draws fyddai gweddi'r Arglwydd ar y tir hwn. Ein Tad y rhai *ydych* yn y nefoedd, deued *eich* teyrnas &c. Yn wir, nid oes un trindodwr, a'r a wn i am dano, yn gwneuthur hyn: maent all yn undodiaid pur wrth annerch Duw mewn gweddi, ni faeddiant ei annerch fel "eilun rhif lluosog." Pan y siaradir am Dduw etto, gwnair hynny bob amser fel un ac nid tri. Felly y mae hanes creadigaeth dyn: er fod Duw yn dywedyd *gwnawn* ddyn; ar ol ei greu nid felly y mae, "Yn wiryw ac yn fenyw y gwnaeth EFE *hwynt* (sef *dyn,* nid dynion). Deut. 6. 13. "Yr Arglwydd Dduw a ofni ac *ef* a wasanaethi." Jer. 10. 10. Eithr yr Arglwydd ydyw'r gwir Dduw, EFE yw'r Duw byw." Felly, er y gellir, ac fod dynion yn, arfer rhagenwau *lluosog* am bersonau unigol, megis y geiriau *ni, chwi;* wrth siarad ag un dywedwn chwi wrtho, heb feddwl ei fod yn rhagor nag un serch hynny, etto ni wnawn byth arfer rhagenwau *unigol* am ragor nag un person. Er y gwnawn arfer y gair chwi wrth ymddiddan ag un fo'n deilwng o barch, ni wnawn byth, ac ni oddef iaith i ni, dywedyd TI wrth siarad â dau neu dri. Y mae'r sylw hwn o bwys mawr yn y ddadl. Er ar y tir hwn y *galled* arfer y gair *chwi* wrth annerch Duw, er hynny eithafion amhriodoldeb fyddai arfer y gair *ti* wrth ei annerch, neu'r gair *ef* wrth siarad am dano, pe rhagor nag un. Felly ni oddef yr iaith gyffredin a arferir am y duwdod i ni feddwl ei fod yn hanu yn dri o bersonau.

Yn yr hen Destament hefyd, yr *un,* yr unig Arglwydd sydd yn wastad yn cael ei addoli. Jehofah hefyd yn unig sydd yn cael ei osod allan fel creawdwr a llywodraethwr y bydyssawd. 2 Bren. 19. 15. "Tydi sydd Dduw (medd Hezeciah) *tydi yn unig* i holl deyrnasoedd y ddaear: *ti* a wnaethost y nefoedd a'r ddaear." Nehem. 9. 6. "*Ti* yn *unig* wyt Arglwydd: *ti* a wnaethost y nefoedd, nefoedd y nefoedd, a'u holl luoedd hwynt, y ddaear a'r hyn oll sydd arni, y moroedd a'r hyn oll sydd ynddynt." Isai. 4. 24. "Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd dy waredydd, a'r hwn a'th luniodd o'r groth, Myfi yw'r Arglwydd sydd yn gwneuthur *pob*

peth, yn estyn y Nefoedd fy HUNAN." Dyma iaith gref, onidē? Nid possibl cael iaith fwy eglur a nerthol dros undod ac yn erbyn trindod. Duw ei *hunan* yw'r Creawdwr, heb ail, na thrydydd iddo'n bod.

"I ni nid oes ond un Duw y Tad," am mai dyma athrawiaeth Crist a'n Apostolion. "Clyw Israel," "medd Iesu yng ngeiraiu Cyfryngwr yr Hen oruchwiliaeth, "Yr Arglwydd *ein* Duw, un Arglwydd yw:" nid *eich* Duw, ond ein Duw, eich Duw chwi a'm Duw innau hefyd. "A hyn yw'r bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod DI (nid fi na neb arall) yr *unig* WIR Dduw, a'r hwn a *anfonaist* TI, Iesu Grist." Er fod dau aderyn y tô yn cael eu gwerthu am hatling, dywed yr Iesu na syrth un o honynt heb ein TAD nefol; ac er nad ydynt yn hau nac yn medi, etto mae ein TAD nefol yn eu porthi hwynt, medd ef. Fel dan yr hen oruchwiliaeth, felly hefyd dan y newydd, ein Tad yw Creawdwr, cynhaliwr, a llywodraethwr pob peth, *unig* wrthrych addoliad CRIST a'i Apostolion. Ie meddaf, arno ef y gweddiai Crist ei hun bob amser: "Yr wyf yn diolch i *ti* O Dad—O Dad cadw hwynt trwy dy wirionedd—Fy Nhad, Os yw bossibl, aed y cwppan hwn heibio, etto nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti—O Dad maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur—O Dad i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd." Geiriau tebyg i'r rhain oeddent yn aml yngenau'r Iesu. A oedd angen gweddio ar yr Iesu, yn ol y dyb boblogaidd am dano? Ond dywedir, mai fel yr oedd yn ddyn yr oedd yr Iesu yn gweddio, nid o ran fod angen arno ef i weddio oll, ond fel y gadawsai esiampl i ni. Ie'n siwr, fel yr oedd yn ddyn yr oedd yn gweddio, pa fel arall y gallasai *weddio*? Gwnaf sylw wrth fyned heibio ar y gair *fel* yma, (triniaf bethau o'r fath hyn yn helaethach pan ar dduwdod Crist,) ond gair neu ddau yn awr, oherwydd ei fod yn nwylaw ein gwrthwynebwyr fel rhyw *magic wand*, yr hon a'i swyn sydd yn eu golwg hwynt yn ddigon i droi dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn bryd y mynnir. Yr oedd Crist yn gweddio fel yr oedd yn ddyn, ac fel esiampl i ni, meddir. O'r goreu, meddaf finau; dyma'i gyd sydd yn eisiau. Oddiar hyn yr wyf yn gofyn, ai oedd Crist yn gweddio'n *iawn* fel yr oedd yn ddyn neu nid oedd? Os iawn, yna gallwn heirio holl drindodiaid y byd i dangos oddiwrth esiampl Crist fod neb *ond* y Tad yn UNIG yn wrthrych gweddi: tystiodd ef mai nôd y *gwir addolwyr* yw addoli'r *Tad*; "Dyfod y mae'r awr, ac yn awr *y* mae hi, pan addolo y *gwir addolwyr y Tad*, mewn yspryd a gwirionedd;" gwiriodd hyn hefyd yn ei esiampl trwyddi oll: o'r tu arall, os na ddarfu i'r Iesu, fel dyn, addoli'n *iawn*, yna ni adawodd esiampl addas i ni ei chanlyn; eithr esiampl, o'i dilyn, a'n harwain i golledigaeth. Dewised y trindodwr yr ochr a fynno, odid na chaiff deimlo rhyw beth oddiwrth un o *gyrn y ddilemma* uchod. Ond p'un ai perffaith neu amherffaith yr esiampl a adawodd Crist, canlynodd yr Apostolion ef i'r llythyren. Cadwasant at y ffurf a gawsant hyd y diwedd. "Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd &c. oedd y ffurf; i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist y diolchent hwythau, ac arno y gweddent yn ddibaid.

"I ni nid oes ond un Duw y Tad," etto unwaith, am mai TAD *yw* ef. O! na fai gennyf amser, galluoedd, a digon o ddalenau eich cyhoeddiad chwi at y gwaith hyfryd hwn, o ddangos peth o'r trysorau ynt yn gynnwysedig yn nhadoldeb Duw: nid ofnwn wedi'n na cnillwn rai o leiaf i daflu'r eilun draw ac addoli'r TAD mewn yspryd a gwirionedd. Pwy all fod yn fawr, yn ddoeth, yn dda yngolwg y plentyn ond ei Dad a hwnnw'n Dduw. *Tad* ydyw ac y mae cofio hyn yn ddigon i ddwyn y marw 'n fyw drachefn, fel y mab afradlon gynt. Tad yw, hollalluog i'n hachub, ac eithaf parod i'r gwaith. "I'r eitha'n Dduw, i'r eitha'n Dad." Na, ni chaiff neb addoliad y galon ond Tad. Môr o gariad ydyw, ac ynddo y maer galon yn uofio yn hyderus:"

Y tân ni'th lysg, y dwr ni'th fawdd,
Ai trwy bob trwch a hynny 'n hawdd,

yw teimlad calon plentyn Duw. Y mae tadoldeb Duw yn ddigon i symmud ymaith pob amheuaeth, i lâdd bob nwyd, ac i lanw'r galon lân a gorfoledd y Nef. O'r trysorau sydd yma; ond rhaid distewi.

Wel, yn awr, gan fod nattur a phriodoliaethau Duw yn dangos nas *gall* fod rhagor nag un gwrthrych addoliad; gan mai iaith gyffredin yr Hen Destament yw mai UN ydyw, UN *Tad* i bawb; mai yr Arglwydd yn *unig* sydd Dduw; nad oes Duw arall *ond* efe; nad oes neb *tebyg* iddo; fod rhagenwau unigol yn cael eu harfer am dano ac wrtho; mai efe yn unig a addolid dan yr Hen oruchwiliaeth a'r newydd; mai efe, ïe efe ei HUNAN sydd wedi creu pob peth; mai efe a addolai Crist a'i Apostolion; mai nôl y gwir addolwyr yw addoli'r Tad, ac nid Tad, Mab, ac Ysbryd; ïe a mwy na'r cwbl oll, gan mai *Tad* yw gwrthrych anwyl ein haddoliad; ai gormod i ni ddywedyd fod ein *metto* yn cuhaf cymmwys, yn ddigon safadwy, hyd oni ddangosir rhyw brofion neu thol i'r gwrthwyneb, o leiaf. Cawn eu chwilio maes law: hyd hynny gorphwysaf yr ciddoch chwi a'ch darllenwyr amyneddgar.

O. EVANS.

IOLO MORGANWG—SALM O'I WAITH, YNGHYD A SYLWADAU BRYCHAN.

MR. YMOFYNYDD,—Gan gymeryd yn ganiatâol yr hoffa eich darllenwyr weled y llinellau canlynol yn gystal a phob peth arall o waith fy nghyn-athraw mawr a byth-glodus IOLO MORGANWG, wele fi yn eu cyflwyno i chwi. Penillion Byfyfyr ydynt a gyfansoddwys yr hen Fardd yn nhŷ Mr. James Davies o Rymi, y pryd hwnw, bore dydd Nadolig yn y fi. 1821, cyfysgrif o ba rai sydd yr awr hon yn meddiant y Bardd hyglod Mr. D. Morris, Eiddil Gwent, yn llaw-ysgrif Iolo ei hun. Os bernwch chwi y dylent fod ar gael a chadw, byddwch garediced a a rhoddi eu hyd a'u lled o'ch misolyn athrawol iddynt er boddhau

Eich cyfaill oedranus,

BRYCHAN.

MAWL I DDUW.

Drwy nefawl uchelderau 'r gwawl,
Aed cân i'r unig Dduw;
A chôr y nef ymuned mawl
Holl deulu dynolryw:
Fal iaith un enaid ymhob gwlad,
Boed llafar glod i'r nefawl dad.

Hedd Duw a'i holl iawnderau ef,
Fo 'n disgyn yn ein plith;
Cyd-g'lymer daear faith a'r nef
Mewn cariad pur dilyth:
Ewyllys dŷn weithredo 'n glau,—
Ewyllys Duw byth i barhau.

IOLO MORGANWG.

ANWYL SYR,—Gan ddiolch i chwi am eich parodrwydd bob amser i dderbyn a anfonwyf atoch idd ei gyhoeddi; wele fi yn cyflwyno y cydfynedol idd eich ymgeledd

golygyddawl. Barnwyf nad all lai na bod yn ddeirbyniol gan bawb a'i darllenodd. Hoffwn yn fawr pe byddech garedicach a chyhoeddi tipyn o hanes bywyd yr Awdwr enwog yn awr a phryd arall yn eich Misolyn. Lliaw fal llawer o'ch darllenyddion, fal finau, yn awyddus am weled hyny. Ellir genyf fod hyna gwedi ei adu cyhyd yn ddisylw. Dyn mawr, ie mawr iawn oedd Iolo Morganwg fel y y gwyddoch, Gan hyny ymdrechwch a alloch, i drosgluddio ei hanes i'r oes a ddel. O wneud felly, chwi a foddhêwch filoedd a miloedd o garwyr llenyddiaeth yn Nghymru heblaw eich gwir ewyllysiwr da a'i hen ddysgybl,

Tredegar, Rhag. 3edd. 1849. JOHN DAVIS, '*Brychan.*'

[Yr ydym yn gwbl o'r un farn a'n Gohebydd parchus ar y pen uchod; a byddai yn dda iawn genyn *pe'n galluogid* i roddi tipyn o Hanes Iolo yn yr Ymofynydd. Rhoddwyd addewid o hyn i ni tua phum mis yn ôl, ond y mae'r addewid heb ei chyflawni etto; a'r bwriad, ofnwn, wedi ei roddi i fynu. Mawr y llawenychem pe bai Brychan i'n hanrcgu a'r cyfryw hanes; a byddem yn ddiolchgar hefyd am gyfraniadau tuag at hyny oddiwrth eraill o hên gyfeillion y Bardd Clodfawr.—GOL.]

AGOR TAI-CYRDDAU—NID EU CYSEGRU.

MR. YMOFYNYDD,—Oddiwrth yr hanes byr, a welir yn yr Ymofynydd am fis Hydref, o "agoriad tŷ-cwrdd yr Undodiaid yn Nghaerfyrddin" fe *ddiau* Mr. Jones, Aberdâr, i'r casgliad "fod yr hên arfer Babaidd o *gysegru* addoldai wedi ymlusgeo i mewn i blith yr Undodiaid."

Yn awr ymhlith yr holl sianyau sydd ar gael o *way-resgoma* credaf mai anhawdd fyddai cwrdd âg un lle mae y casgliad *(infer-me)* yn fwy ammherthynasol i'r *premises* nag ydyw yn yr hanesiad hwn. *Fe agorwyd tŷ-cwrdd*—yn ganlynol—*bwcyd gydâ'r hên arfer Babaidd o gysegru addoldai!!* Lle mae awydd i weled a nodi bai, fe â *logic* a phob peth arall dros gôf.

Yn fy ngolwg i nis gall dim fod yn fwy addas a rhesymmol nâ'r arferiad o wahawdd gweinidogion medrus a galluog i bregethu y tro cyntaf y cynnelir gwasanaeth mewn addoldŷ—er mwyn gosod allan ac egluro yr egwyddorion sydd i gael eu dysgu yno. Y mae yn fwy cyfleus i wneuthur hyn yn yr wythnos nag ar y Sabbath, oherwydd fod gweinidogion, yn gyffredin, yn rwymedig ar y Sabbath. Gyda'r diben hwn y cynnalwyd y cwrdd yn Nghaerfyrddin Awst diweddaf. Ac yn ôl barn rhai o'r Undodiaid henaf yn Nghymru, ni chlywyd gwirioneddau pwysig Undodiaeth yn gael eu hegluro a'u hamddiffyn mewn modd mwy goleu a gallaog, ac mewn ysbryd mwy Cristnogol, nag ar yr achlysur uchod.

Ni wnaf ddim ymhelliach yn bresenol ond adgofio Mr. Jones, ei bod yn bossibl "hidlo gwibedyn a llyngcu camel."

Ydwyf, Mr. Ymofynydd,
Yr eiddoch &c.,

Caerfyrddin, Rhagfyr 18, 1849. D. LLOYD.

BYWGRAFFIAD YR UNDODIAID BOREU.

LLYTHYR II.

THOMAS FIRMIN.

Ganed Thomas Firmin yn Ipswich, yn sawdd Suffolk, yn y flwyddyn 1632. Ho'y cadodd hefyd ei ddwyn i fynu dan olygiaeth ei rieni, y rhai, medd yr hanes, oeddent gref-ddel iawn; a chyda golwg ar bethau'r bywyd hwn yr oeddent mewn sefyllfa *respectable*, er nad oeddent gyfoethog. Pan ddaeth Thomas i oedran, cafodd ei brentisio i fasnachwr

yn Llundain, Yn y sefyllfa hon hynododd ei hunan yn fawr am ei ddiwydrwydd, a'i foesau caruaidd, a'i ufudd-dod dinâg. Arferai fyned gyda'i feistr i wrando un Mr. John Goodwin, pregethwr enwog gyda'r Arminiaid: trwy hyn cafodd yn fuan ei ynnill oddiwrth Galfiniaeth, yn yr hon y dygwyd ef i fynu, ac i fonwesu daliadau Arminus. Ar ol i amser ei brentisiaeth ddyfod i fynu, dechreuodd gadw *business* ei hunan, er nad oedd ganddo ond cant punt yn unig at y gorchwyl. Yn 1660 darfu iddo briodi a merch i ddinasydd o Lundain, a chafodd £500 yn waddol gyda hi.

Trwy ddiwydrwydd a medr daeth yn fuan yn berchen cyfoeth; ond yr hyn oedd yn anghydmarol fwy ei werth, daeth yn enwog dros ben am ei demmer aeddfwyn, ei onestrwydd yn ei fasnach, ei ymgais i ddwyn oddiamgylch ddedwyddwch eraill, a'i ymdrechion parhaus i esmwythau gwasgfaeon y tlawd, yr helbulus, a'r anffodus. Oddiar pan y dechreuodd ei fasnach, yr oedd yn awyddus i gael cyfeillach dynion enwog am eu rhinwedd, o ba wlad neu sect bynnag y byddent, ac yn enwedig gweinidogion gwahanol enwadau crefyddol.

Oddiwrth ei gyssylltiad a'r rhai'n cafodd gynorthwy nid bychan i ddwyn oddiamgylch y bwriadau haelionus a dyngarol, y rhai a'i henwogasant ef ar ol llaw. Ymhlith eraill yr oedd yn adnabyddus iawn a Mr. John Biddle, bywgraffiad yr hwn a ymddangosodd yn fy llythyr cyntaf; cafodd ei sicrhau gan Biddle yn ei olygiadau Arminaidd, ac yn fuan, ei wneud yn broselyt hollol i Undodiaeth, am yr hon y cafodd Biddle druan ei alltudio o wlad ei enedigaeth. Ond er cymmaint yr erledigaeth a syrthiodd i ran Biddle oherwydd traws-arglwyddiaeth Cromwell, neu yn hytrach, yr iawn gred yn amser Cromwell, er hynny ni allasai dim ysgaru Firmin oddiwrtho, eithr dangosodd bob tynerwch a charedigrwydd iddo, tra y cafodd aros yn ei wlad: ac wedi i Cromwell anfon Biddle i garchar i ynys Scilly, llwyddodd Firmin i gael *pension* iddo yr hwn a ganiattawyd iddo dros ei alltudiaeth. Yn wir yr oedd Firmin eyn hyn. pan yn ddyn ifange ar ei brentisiaeth, wedi dangos sel a dewrder mawr yn achos Biddle, trwy faeddio ceisio gan Cromwell ei ryddhau o garchar Newgate, yr hwn mewn modd difyr a ofynodd iddo, "Pa fodd y gallasai ddisgwyl i ffafr gael ei dangos i un oedd yn gwadu ei Iachawdwr ac yn aflonyddu'r llywodraeth?" Er hynny nid oedd Cromwell ei hun dros erledigaeth. Ymhlith cyfeillion Mr. Firmin oedd Dr. Whichcote, Dr, Worthington, Dr. Tillotson, a Dr. Wilkins. Trwy ei gyfrinach ag offeiriaid, a'u hyder trwyadl hwythau ynddo, cafodd ei alluogi i gymeradwyo dynion o alluoedd a rhinwedd i lanw sefyllfaoedd o bwys; ac felly bu o les mawr i lawer o ddynion ifainge.

Yn y flwyddyn 1666 darfu i Mr. Firmin briodi yr ail waith, a chafodd waddol mawr gyda 'i wraig. Yn 1666 llosgwyd ei dy ef gan y tân mawr a ddigwyddodd y flwyddyn hon yn Llundain. Ond yr oedd ei garacter fel masnachwr mor dda ac adnabyddus, fel nad hir y bu cyn adgyweirio'r golled a gafodd trwy'r ddamwain hon, a gallasai gasglu cyfoeth mawr oni bai ei galon haelionus, yr hon a'i cymhellai i roddi rhan fawr o'r elw a dderbyniai at ddibenion haelionus a dyngarol.

Yn y flwyddyn 1676 cyfododd adeilad helaeth, ac a sefydlodd waith lliain, i'r diben i roddi gwaith i nifer o blant tlodion, y rhai oeddent ar y pryd yn faich ar y wladwriaeth, ac yn anghyssur iddynt eu hunain. Yn y modd hyn rhoddai waith i ganocdd o'r cyfryw ag oeddent yn gyfarwydd a gwahanol ganghenau o fasnach, neu yn foddlon cymeryd eu dysgu ynddynt. Ond, fel y tybiai cyn dechreu, nid oedd yr adtaliadau yn ddigonol i'r draul oedd yn myned allan; er hyn bu yn alluog, trwy ei gyfoeth ei hun a rhoddion dynion haelionus eraill, i ddioddef y golled, ac yn achlysurol i roddi i'r gweithwyr ychydig arian yn fwy na'u hynnill, ac hefyd i gyfranu tanwydd a dillad i'r tlodion mewn tymhorau celyd.

Yn y flwyddyn 1678 cyhoeddodd gynhygiad i roddi gwaith i'r tlodion yn enwedig yn ac o ddeutu Llundain &c. mewn llythyr at gyfaill. Yn y traethawd hwn y mae'n desgrifio cynnydd ac effeithiau da y sefydliad, ac yn gwneuthur amryw sylwadau gwerthfawr er darparu ar gyfer angenion y tlodion. Ar ol hyn cynygodd sefydlu gwaith gwlân gyda'r un amcan; ond darfu i'r colledion a gafodd oherwydd anwybodaeth ei weithwyr ei orfodi i roddi ei amcan i fynu. Adeiladodd ystordy mawr ar lan yr afon Tems, yn yr hwn y gosodai ynghadw lafur a glô a brynai mewn amser rhâd, i'w werthu drachefn i'r tlodion ar y *prime cost* mewn amser o brinder. Yr oedd Mr. Firmin yn hynod am ei zel a'i ddiwydrwydd i ryddhau dyledwyr tlodion o garchar, a darparu ar gyfer cyssur eraill y rhai ni allasai eu ryddhau. Bu, modd bynnag, yn foddion i agor dorau'r carchar i laweroedd oeddent a'u teuluoedd yn barod i drengu o newyn; a dywedir fod ganddo ddylanwad mawr ar aelodau pennaf y senedd i *bassio* cyfreithiau mwy têg ar gyfer dyledwyr tlodion.

Yr oedd Mr. Firmin yn nn o lywyddion Yspytty St. Thomas, a bu yn hynod o ddiwyd i'w wneuthur mor ddefnyddiol ag oedd possibl; yr oedd hefyd yn llanw yr un sefyllfa yn Yspytty Crist (*Christ's Hospital*), i'r hon y bu o les mawr.

Pan y darfu i Brotestaniaid Ffrainge ffoi i Loegr rhag erledigaeth Louis XIV, yr oedd Mr. Firmin yn ddiwyd yn darparu cymmorth iddynt; ac ymddiriedwyd i'w

ofal a'i drefniad ef amryw filoedd o bunnau i'w cyfleu at achos y ffoedigion. Yr oedd Mr. Firmin hefyd yr un mor zelog ymhlaid y rhai a ffoent o'r Iwerddon i Loegr er diange rhag erledigaeth Iago II. Yn fyr, yr oedd ef yn ddyn mor ddiwyd, mor ddyngarol, yn bleidiwrrhyddid gwladol a chrefyddol mor ddewr, fel na wnaeth sefyll gymmaint ag unwaith yn ddifatter uwch ben gormes, heb gyfodi ei lais dros y gormesedig. Trwy daenu cyhoeddiadau dros ryddid, ymdrechai gyffroi ei gydwladwyr i ymddiffyn eu hiawnderau; a gellir ei ystyried fel llaw gryf i ddwyn oddiamgylch y chwildroad yn 1688.

Ar ol y digwyddiad hwn rhoddodd Mr. Firmin brofion eglur nad oedd ei ddyngarwch yn gyfyngedig i un blaid mwy na'i gilydd, eithr ymdrechai hyd eithaf ei allu i gynorthwyo'r cyfryw a ddioddefent oherwydd cydwybod, pwy bynnag y fyddent, a pheth bynnag eu daliadau. Darfu i'w garacter uchel o'r diwedd dynu sylw'r frenhines, yr hon a ddangosodd ofid mawr am nad oedd yn uniawn-gred yn ei farn; ac ymbiliodd ar arch-esgob Tillotson i ymdrechu ei argyhoeddi a'i dynu o'i gamsynied. Attebodd yr arch-esgob y frenhines, gan ddywedyd, ei fod wedi gwneuthur ei oreu yn barod, ond fod Mr. Firmin wedi llyngcu Undodiaeth yn rhy foreu a dwfn i feddwl am ei gyfnewid i syniadau croes iddynt byth mwy. Ar ol hyn, modd bynnag, anfonodd Dr. Tillotson bregethau ar y pyngciau mewn dadl i Mr. Firmin, yr hwn yn union, heb oedi, a esgrifenodd atteb iddynt, ac a'i hanfonodd i'r Arch-esgob: er hynny ni darfu i'w cyfeillgarwch y naill at y llall leihau mewn un mesur oherwydd hyn.

Yr oedd Mr. Firmin mewn gyfeillach agos hefyd a Dr. Compton, esgob Llundain; ac ni ddylid anghofio mai efe (Mr. Firmin) ddarfu osod ar droed y casgliadau a wneir yn ac oddeutu Llundain bob Nadolig ar gyfer y tlodion, y rhai fuant dan ei lywyddiaeth ef am lawer o flynyddau. Ond er cymmaint ei ddyngarwch, ac yn wir yr oedd yn uchel iawn, mor uchel fel nas gallaf gredu na fuasai iddo ddyfeisio rhyw foddion i leihau trueni anghydmarol y *slop-work-women* pe buasai byw yn awr; ond er cymmaint ei ddyngarwch, nid oedd ef yn berffaith mwy nag eraill.

Er ei fod yn undodwr o ran ei farn arosodd yn yr eglwys sefydledig tra y bu byw. Cyhuddid ef gan y rhai a gashaent ei egwyddorion o anonestrwydd a llwfrdra am gydymffurfio; a phan yr ystyriom natur benderfynol ei farn mewn pethau crefyddol, buasai yn ddiau yn fwy cysson ynddo i ymneullduo: ond cyn rhoddi barn fyrbwyll ar ddyn mor rhagorol, dylid ystyried ei amgylchiadau; yr oedd ei gyfeilllon anwylaf yn yr eglwys, trwy y rhai y galluogid ef i wnenthur llawer o ddaioni na fuasai o fewn ei gyrraedd heblaw hynny; pe buasai yn ymadael, nid oedd un o'r sectau eraill yn fwy agos at ei farn ef na'r eglwys, os mor agos; ac yn eithaf tebyg ei fod yn gobeithio gweled cyfnewidiad mawr yn yr eglwys, fel llawer eraill yn ei oes. Ei esgus ef dros aros yn yr eglwys oedd ei fod yn rhoddi esboniad Sabelliaidd i'w gwasanaeth cyhoeddus.

Da gennyf ddywedyd iddo, ar ddiwedd ei oes, ddyfod yn anfoddlon i'w ymddygiad—wedi ei argyhoeddi o bossibl gan weithrediadau'r *Convocation*, mor ofer oedd disgwyl am gyfnewidiad yng ngweddiau'r eglwys,—yr oedd yn parotoi, meddir, i sefydlu cynulleidfaoedd Undodaidd, nid fel ymraniadau oddiwrth yr eglwys, ond fel canghenau ô honi; ond lluddiodd angau ef i gyflawni ei amcan. Gallaf ychwanegu yngeiriau Mr. Tayler, heb un sarhad ar garacter Mr. Firmin, Nad oes ond ychydig o gymeriadau yn dangos cyferbyniaeth o fwy nag eiddo Biddle a Firmin, er eu bod yn coleddu yr un egwyddorion, ac wedi ymroddi i'r un achos cyffredin. Yr oedd Biddle yn ysgolhaig llafurus, ac a weithiodd allan ei farn trwy astudrwydd parhaus: nid oedd Firmin o hono yntau ond dinasydd cyffredin, hollol anwybodus o'r iaethoedd dysgedig, a choleddai ei ddaliadau crefyddol, oherwydd y canfyddai eu rhesymoldeb, a'i fod wedi ei argyhoeddi gan addysgiadau ei feistr. Yr oedd Biddle yn tybied ei fod yn gwasanaethu ei genedl trwy ddwyn ei dystiolaeth yn ddiofn i'r gwirionedd, a dioddef dirmyg ac erledigaeth er ei fwyn; yr oedd Firmin yn treulio ei fywyd mewn gweithredoedd o haelioni, ac felly yn dangos Crist, os pregethai Biddle ef: yr oedd mewn cyfeillach a'r offeriaid, a thrwy wendid ni ymadawodd a'r eglwys. Tlodi a gwarth y carchardy llaith, a chraig unig alltudiaeth, oedd rhan Biddle; cyfoeth, parch, a dylanwad, y ty hardd a'r ardd hyfryd, oedd rhan Firmin. Yr oedd cydwybodolrwydd uchel Biddle yn gofyn ar i ddynion ddyfod allan o'r eglwysi a ystyriai ef yn llygredig, a rhoddi heibio yn hollol bob cydymffurfiad allanol a chyfeiliornad; o'r tu arall yr oedd temmer aeddfwyn a gobeithiol Firmin yn ei arwain i obeithio y gallai daenu'r gwirionedd yn fwy effeithiol trwy aros lle yr oedd.—Os oedd dewrder Merthyr gan un, yr oedd y llall yn berwi o zel dros ddedwyddwch dyn."

Hanes ei funudau olaf a gaf yn Lindsey's Apol. fel y canlyn. "Yn ei afiechyd olaf, yr hwn fu'n fyr iawn, ymwelodd Dr. Fowler, esgob Gloster ag ef, y cyfaill anwylaf a feddai. Yr hyn a gymerodd le rhyngddynt, a roddir gan yr esgob yn y geiriau canlynol;" Dywedodd Mr. Firmin wrthyf ei fod yn awr yn myned: ac yr wyf yn gobeithio ebefe, na fydd i Dduw fy nghondemnio i waeth cyfeillach, nag a garwn ac a gawn fwynhau yn y bywyd presenol. Minnau a attebais, ei fod wedi bod yn esiampl hynod o garedigrwydd: cafodd y tlawd fendith ragorol ynoch, os nad

oes gennych un disgwyliâd oddiwrth eu haeddiant hwynt, ond yn ymorphwys yn hollol ar ddaioni anfeidrol Duw, a haeddiant ein Gwaredwr; nid wyf yn ameu na fydd i'ch gweithredoedd eich canlyn chwi. Yma yr attebodd, "Yr wyf yn gwneuthur felly, ac yr wyf yn dywedyd yng ngeiriau fy Ngwaredwr, *wedi gwneuthur y cyfan, gwas anfuddiol ydwyf.*" Yr oedd yn y fath boen gan ddiffyg anadl, fel na thybiais yn gymwys i siarad rhagor ag ef, ond rhoddais sicrwydd iddo y cai ran yn fy ngweddiau taer, tra yr arosai yn y byd hwn. Felly darfu i ni ffarwelio mewn modd sobr iawn a'n gilydd."

Er nad oedd Mr. Firmin yn ysgrifenydd ei hunan, rhoddai bob annogaeth i awdwyr, a *chyhoeddai* lyfrau er na chyfansoddai hwynt. Yr oedd ganddo law fawr yn yr "Unitarian Tracts" a gyhoeddwyd tuag amser y chwildroad. Ac arferai bob moddion, ond ymadael a'r eglwys, i daenu undodiaeth a phleidio ei chofleidwyr, a thebyg yw y buasai weidi ymneullduo hefyd oni bai i angau ei attal, yr hyn a gymmeroedd le yn Mis Rhagfyr 20ed. 1697. Claddwyd ef yn lliandy Yspytty Crist, yn ol ei gais ef ei hun, lle y cyfodwyd y goffadwriaeth ganlynol iddo.

"Dan y garreg draw, yn agos i'r lle yma, y gorwedd corph Thomas Firmin; yr hwn, trwy ras Duw, a grewyd yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, yn yr rhai yr oedd yn ddiwydd a diorphwys, a chynhyrfodd eraill yn llwyddianus i'r unrhyw; yn gwneuthnr elusenau, yn ymweled a'r tlodion a'u cynorthwyo yn eu haneddau, ac mewn carcharau, o'r rhai y gwaredodd lawer. Gosododd ganoedd ar waith er colledu ei hun. Ail-adeiladodd, adgyweiriodd, ac ychwanegodd lawer o gyfleusderau at, Yspyttai, gan ymweled a'r ymddifaid bob wythnos. Cyfranogodd ffoedigion Ffrainge a'r Iwerddon yn helaeth a'i garedigrwydd, ei ludded, a'i ymdrechion yn eu hachos. Yr oedd yn hynod o zelog mewn pob gweithred dda tuhwnt i esiampl neb yn ein hoes ni. Fel hyn y dangosodd efe ei ffydd trwy ei weithredoedd, ac nis gall, mewn rheswm, gael ei feio am yr hyn a ddygodd allan y fath gyflawnder o weithredoedd da."

O. E.

Y RHESWM DROS WELLHAOLDEB COSP ODDIWRTH Y GAIR GROEG *KOLASIS* A GYFIEITHIR COSPEDIGAETH YN MATT. XXV. 46.

Syr,—Ymddengys i mi fod y rheswm dros wellhaoldeb cosp yn y byd nesaf oddiwrth y gair Groeg *kolasis*, yn teilyngu manylach sylw na'r hyn a wnawd o hono yn ddiweddar yn yr *Ymofynydd.** Pe buasai rhyw un mwy hyddysc na mi yn yr awduron Groeg yn cymeryd at y gorchwyl o olrhain gwir feddwl y gair hwn, byddai o bosibl yn fwy dymunol gan rai, ac yn enwedig gennyf fi: ond gan nad oes hyd yn hyn un argoel y gwna neb hynny, anturiaf yn ostyngedig i gynnyg i sylw eich darllenwyr dysgedig y papuryn hwn, gan ddisgwyl i bydd yn achos i ryw rai mwy galluog na mi gymeryd y pwnc mewn llaw.

Cyn i Mr. Jones o Aberdâr, gyhoeddi ei ddarlithiau ar "Duw a'i ddibenion yn ol ei air," yn enwedig ei ddarlith am mis Mehefin diweddaf, ymorphwyswn, fel llawer, yn ddifeddwl ar gywirdeb sylw awdwyr yr "*Improved Version*" ar y gair *kolasis*, yn Matt. xxv. 46, lle y dywedir, "Meddwl priodol y gair a gyfieithir yma cospedigaeth, yw cosp yn cael ei gweinyddu er mwyn lles y troseddwr." Os nad wyf yn camsynied, mae y nifer liosoccaf o'r dysgedigion Undodaidd yn Nghymru a Lloegr, a Simpson a Dr. Southwood Smith yn eu plith, yn cyttuno â'r dyb hon yn nghylch y gair *kolasis*.

Ond pan ymddangosodd traethawd Mr. Jones yn mis Mehefin diweddaf, cefais fy nhueddu i dalu sylw neilduol i'r gair *kolasis*, oherwydd fod Mr. Jones yn gwneuthur defnydd o hono fel un rheswm dros mai lles y pechadur fydd gan Dduw yn y golwg yn ei gospi yn y byd nesaf. Meddyliais fod ei bwnc yn ddigon cryf, hyd yn oed pe gadawsai allan reswm ac sydd yn *awr* o angenrheidrwydd yn ammheüus—rhy ammheüus, fel y rhan amlaf o resymau cyffelyb oddiwrth darddiad a meddwl geiriau, i osod nemawr neu ddim pwys arnynt. Ond pa fodd bynnag, ymddengys fod Mr. J. yn parhau i ymorphwys yn ddibryder ar *kolasis*, fel un rheswm cryf dros yr athrawiaeth; oblegid yn ei atteb i Mr. Evans o Lambedr dywed, "Nid ydyw Mr. E. wedi cynnyg profi nad cerydd er gwellhâd ydyw ystyr y gair *kolasis*." Cyn dyweyd hyn, dylasai Mr. J. ystyried yn fanwl a ydoedd efe ei hun wedi profi *yn gyntaf* fod y gair yn meddwl lleshâd y cospedig.

---

* Dichon y bydd rhai o'r farn ei fod yn annoeth ynof i gyhoeddi y llythyr hwn, yn awr pryd mae'r ddadl rhwng Mr. Jones a'i wrthnebwr yn myned ym mlaen. Wrth y cyfryw y dywedaf fy mod i yn hollol o'r un farn a Mr. Jones, ar ddiben Duw yn cospi yn y byd nesaf, a hyny o herwydd y rhesymau mae ef wedi drafod mor feistrolaidd yn annibynol ar y gair kolasis. Pe caniateid i'r gwrthwynebwyr fod y gair hwn yn ammheuus, ni fyddant nemawr yn nes o brofi dialeddoldeb cosp, tra fydd rhes o rhesymau eraill i'w cael ag sydd, yn fy meddwl i, yn anwrthwynebol. Mae fy ffydd i gymaint yn rhesymoldeb ac ysgrythyroldeb y syniadau Undodaidd, fel na chredwyf y gall ymddygiad hynaws (candid) tuag at reswm, p'un ai o'i thu neu yn ei herbyn y bo, byth niweidio ei phrif egwyddorion.

Yn y traethawd tra rhagorol hwnw ar y *Divine Government*, gan Dr. Smith, mae'r awdwr, wrth gwrs, yn esbonio yr adnod rhagddywededig, ac yn neilldduol y frawddeg "A'r rhai hyn a ant i gospedigaeth dragywyddol." Dywed "*The word translated punishment in the received version is kolasis, a term universally allowed to signify chastisement or corrective punishment. It is used in this sense by the heathen philosophers.*" Haeriad go gryf yw dyweyd fod pawb dysgedigion yn addef mai ystyr *kolasis* yw cosp gyda bwriad i wellhau y cospedig. Pa le mae'r prawf? A ydyw y Doctor yn meddwl yr addef y mwyrif o esgobion ac offeiriaid yr eglwys sefydledig hyn, gan nad beth i ddyweyd am ddysgedigion y sectau Trindodaidd eraill? Pe dywedai y Doctor "*universally allowed*" am *nouthesia* neu *parainesis*, byddai efallai yn agosach at y gwir; oblegid yn ystyr *kolasis* mae rhywbeth i'w ddeall sydd o leiaf yn sarrug (*stern*), pan mae'r ddau arall yn meddwl cyngor yn deilliaw o ddymuniad da.

Mewn perthynas i'r gair *kolasis*, mae Mr. Jones yn defnyddio cryfach iaith yn ei atteb i Mr. Evans, nag a wna yn ei ohebiaeth. "Rhaid," medd efe, "y gwyddai yr anfarwol Plato ei feddwl, a dywed ef mai *sophroniseos heneka* ydoedd (*kolasis*): a geilw Plutarch hi *colasis iatreia psuches*, cosp meddyginiaethol yr enaid." Os ydyw Mr. Jones yn meddwl ei fod yn dyweyd hyn ar awdurdod Grotius, y mae wedi ei gamddeall, oblegid nid ydyw Grotius yn dyweyd mai *kolasis* yw y gosp a weinyddir gyda diben *sôphronistuos heneka*, a *iatreia psuchês*, yn fwy neilldduol na *nouthesia* a *parainesis*.* Ond dichon ar yr un pryd fod Mr. Jones, er dim a ddywed Grotius i'r gwrthwyneb, yn iawn, sef mai *kolasis* yw'r *sôphronistuos heneka*, a'r *iatreia psuchês*; ac y mae yn sicr o fod yn iawn, os ydyw ef ei hun wedi bod yn llygad y ffynon: ond nis gwn ei fod yn iawn, oblegid nid yw *Leges* Plato yn fy meddiant; ac er fod gwaith Plutarch o hyd i mi, yr wyf wedi methu hyd yn hyn gyfarfod â'r frawddeg *iatreia psuchês*, oherwydd mae ei waith yn helaeth iawn, ac ni ddywed Grotius yn mha gyfran o hono y mae hi. Os gwyr Mr. Jones pa le mae'r frawddeg, teimlwn yn ddiolchgar iddo am fy nghyfarwyddo. Mae'r peth o bwys, o leiaf, yn fy ngolwg i. Cymaint a hyn yn amgylchiadol.

Yn awr brysiaf yn mlaen i geisio olrhain gwir feddwl y gair *kolasis*.

I. Mae yn lled debygol mai ystyr cyntefig *kolasis*, *kolasma*, a *kolasmos* (oblegid nid oes nemawr o wahaniaeth yn ystyr y tri hyn) yn gystal a'u perwyddiad *kolazô*, ydyw digeinciad neu digeincio, neu ysgythru coed o'r cangenau gwyllt fyddo yn niweidio y ffrwythau a'r prenau, trwy ddifa gormod o'r nodd sydd yn ofynol at eu cynnaliaeth. *Kolazein dendra*, medd Theyphrastus, sef *ysgythru coed*. Strictly, *to curtail, dock, prune*; but usually, like the Latin verb *castigare, to keep within bounds, to check ta pleonaza*. Yn yr ystyr hwn mae yn gynnwysedig y meddwl o rwystro rhyw beth neu rhyw un: *to check, chastise, correct, punish any one*.† Yna, oherwydd y berthynas agos sydd rhwng y weithred o rwystro drwg trwy gospi y trosseddwr, â'r weithred o ymddial ar ryw un fel iawn am ryw ddrwg a wnaeth, y mae *kolazô* a *timôreô* yn meddwl weithiau yn bur agos yr un peth.

II. Os ydyw *kolasô*, *kolasis*, &c. yn meddwl cosp er mwyn gwellhau y cospedig, felly hefyd y gwna *timôreomai*, *timôrêsis*, a *timôria*; er engraifft.

Xenophon yn desgrifio anferion y Persiaid, a ddywed am eu plant fel hyn;—"Cospant (*timôrountai*) y cyfryw o'r plant a wybyddant sydd yn gwneuthur anghyfiawnder. Cospant hefyd (*kolazousi*) y cyfryw o honynt a geir yn dwyn cyhuddiadau anghyfiawn."‡

Etto, "Diben pob peth a'n cyferfydd," medd Sulpicius, "ag sydd yn ei natur yn gospedigaethol neu yn ddialeddol [*kolastika te kai timôra*.] yn y byd hwn ac yn uffern, yw peri i'r enaid i ystyried ei bai, i gasau drwg a bywyd croes i natur, ac o'i bodd i gofleidio rhinwedd."§

Fy niben yn dyfynu'r engraifft hwn o Sulpicius, ag sydd mor bwrpasol i'r pwnc, yw dangos, os yw *kolasis* yn meddwl cosp wellhaol, fod *timória* hefyd yn meddwl yr un peth; ac am hynny y gall fod yr *argument* oddiwrtho yn profi gormod, ac felly yn profi dim. Ond dalier sylw fod y diben [gwellhâd y gospedig] yn cael ei ddynodi yn yr engraifft olaf, nid gan ddim neilldduol yn ystyr y gair *kolasis* a *timòria*, ond gan waith yr awdwr yn desgrifio ei feddwl. Yn yr engraifft o Xenophon, rhaid casglu y diben oddiwrth y cyssylltiad, neu'r peth a draethir, sef ceryddu plant.

III. Yn nesaf mi gaf ddangos fod *kolazò*, *kolasis*, *kolasma*, yn cael eu defnyddio yn fynych i ddynodi cosp pryd na byddo un diben daionus yn y golwg.

Yn Euripides darllenir *kolazein thanatò*, sef cospi a marwolaeth.‖ Nid oes yma, gan nad beth, un dymuniad da yn y diben.

---

* Ad horum trium finium primum pertinet poena quae philosophis modo nouthesia, modo kolasis, modo parainesis dicitur; Paulo Jurisconsulto, poena quae constituitur in emendationem, sophronistuos heneka Platoni, Plutarcho iatreia psuches, animi medicatrix, quae hoc agit ut eum qui peccavit reddat meliorem medendi modo qui est per contraria. De jure belli et pacis Lib. II cap. xx. ⁋vii. 1.

† Gwel Liddell and Scott's Passow, Scapula, &c. ‡ Cyri Discip. Lib. I. cap. 2. 6. § Comment on the 28th. Chapter of Epictetus's encheiridion, towards the end. ‖ Hel. 1172.

Dywedir yn Xenophon "Yr wyf yn ei gospi ef â phob math o ddrygau [*kolazo auton pasi kakois*]."* Nid oes yma ychwaith ddim diben da; y mae yn fwy tebyg fod y gweithredydd tan ddylanwad ysbryd ymddialgar.

Mae taro a'r cleddyf yn cael ei alw *kolasma*. Yr ydym yn ddarllen yn Xenophon fod Tigranes yn ei ymddidau a Cyrus yn dyweyd "Oni wyddost fod y rhai a darewir a'r cleddyf—y gosp greulonaf a feddylir [*tò ischuròtato kolasmati nomizomenò*]—yn ewyllysio ymladd drachefn a'r un rhai."‡

Etto, "Am hyny danfon ryw wr yr hwn wyt yn ymddiried iddo, ac aed ac edrychad ar yr holl ddistryw a wnaeth ef [*Judas Maccabaeus*] arnom ni, ac ar wlad y brenhin, a chosped efe [*kolasato autous*] hwynt [Judas a'i wyr] a phawb sydd yn eu cynnorthwyo." 1 Macc. viii. 7.†

Y cleddyf, wrth bob tebygolrwydd, fuasai yn cael ei osod ar waith i gospi Judas, nid gyda diben i wneyd Maccabaeus yn well dyn, ond i ymddial arno, a'i symud oddiar ffordd Demetrius.

Gelwir *kolasis* a *timória* ar waith llywodraeth yn cosp troseddwyr: "O achos hyn," medd Chrysostom, "mae llysoedd barn, cyfreithiau, dialeddau [*timóriai*], a gwahanol fath o gospedigaethau [*kai diaphoroi kolaseón tropoi*."§

"Hwy a safasant yn erbyn y rhai [yr Aiphtiaid] a ryfelent i'w herbyn, ac a ddialasant [*ekolasan*] ar eu gelynion." Doeth. Sol. xi. 3.

"Canys trwy'r pethau y cystuddiwyd [*di' hón ekolasthêsan, poenas passi sunt.* Vulg.] eu gelynion hwynt [yr Aiphtiaid, gelynion yr Iuddewon], trwy yr un pethau y cawsant hwy lês, pan oedd eisiau arnynt." Adn. 5.

"Canys pan glywsant wrth eu cystudd eu hun [*dia tón idiòn kolaseòn, per sua tormenta.* Vulg.] gael o honynt hwy [yr Iuddewon] fudd, hwy [yr Aiphtiaid] a feddyliasant am yr Arglwydd." Adn. 13.

"Am hynny y cospwyd hwynt [yr Aiphtiaid] à'r cyffelyb fel yr haeddent [*ekolasthêsan aksiòs, passi sunt digne tormenta.* Vulg.] ac y dialeddwyd hwynt a lliaws o anifeiliaid." Pen. xvi. 1.‖

Nid ydwyf yn gallu canfod fod *kolasis*, yn un o'r engreifftiau hyn, yn dynodi cosp gyda bwriad i wellhau y cospedig. Pe ychwanegwn lawer yn rhagor o siamplau i ddangos fod *kolasis* yn dynodi cosp heb un rhyw ddymuniad da at y cospedig, ni wnawn ddim, gyda golwg ar gadarnhau'r pwnc, ond blino amynedd y darllenydd yn ddiachos; oblegid gwyr pob dysgawdwr fod digonedd o honynt i'w cael yn yr awduron Groeg. Un engraifft yn rhagor, ac yna rhoddaf heibio.

"Eithr wedi eu bygwth [Pedr ac Ioan] ym mhellach, hwy a'u gollyngasant hwynt yn rhyddion, heb gael dim i'w cospi hwynt [*pós holasontai autous*], oblegid y bobl." Actau iv. 21.

Cosp wladol sydd i ddeall yma, a hyny os dim, gyda golwg ar lês y cyffredin.

IV. Y mae yn deilwng o sylw, cyn diweddu, fod y Deg-a-thriugain yn cyfieithu y frawddeg Hebraeg honno yn Ezekiel, MIKSHOL AVONAM, a elwir yn Gymraeg "tramgwydd eu hanwiredd," *tên kolusin tòn adikiòn autón.*¶ Pa fodd mae'r gair *kolasis* yn arwyddo tramgwydd, nis gwn, os nad yw yr hyn sydd yn achosi cosp yn cael ei ystyried yn dramgwydd. "Tramgwydd anwiredd" yr Iuddewon oedd y delwau a addolent. Mae y *Lexicographers* yn ddistaw yn nghylch yr ystyr hwn a roddir i *kolasis* gan y Deg-a-thriugain.

Yn awr, Syr, cyflwynaf yn ostyngedig yr ychydig *lucubrations* hyn i ystyriaeth dysgedigion yr Undodiaid. Nid wyf yn gallu bod mor benderfynol yn fy meddwl a chredu eu bod "yn ddigon i brofi beth yw ystyr y gair colasis;" ond yr wyf yn eu cyflwyno fel cynnyg at olrhain gwir feddwl y gair, ac fel gwahoddiad i eraill roddi eu meddwl hwythau, os gwelant y pwnc o werth. "Trwy amryw gynghorion mae cael allan ddoethineb." Ar yr un pryd, mi ddymunwn roddi ar ddeall, nad wyf, ar ol chwiliad mor fanwl a diduedd ag a allwn, yn credu fod y Groegiaid yn meddwl dim mwy wrth *kolasis*, gyda golwg ar ddiben, nag a feddyliwn ni wrth y gair *cosp*, neu y Saeson wrth *punishment*. Os bydd llês y cospedig yn y golwg wrth weinyddu y gosp, ymddengys i mi fod y diben hwnnw, naill ai yn cael ei ddynodi mewn geiriau, neu ynte i'w gasclu oddiwrth yr amgylchiad.

D. L. EVANS.

SYLWADAU AR 'DUW A'I DDIBENION YN OL EI AIR.'

(Parhâd o tudal. 279. *Cyf.* II.*)*

Fe dybiwn fod Mr. Jones yn meddwl ei fod wedi rhoddi taw bythol i'r Armin yn ei resymiad canlynol. "Os rhoddodd Duw ewyllys rydd i ddyn——yna rhaid fod Duw yn awdwr pechod. Achos yr achos yw achos yr effaith." Yr wyf yn cofio fy mod ychydig yn ol yn dar-

* Xen. Hell. ‡ Cyri Disciplina Lib. III. cap. 1. 23. † II Macc. vi. 14. § Grotii De Jure belli et pacis, Lib. I. cap. 2. §8. 6. ‖ Pen. xi. 8. 14; xvi. 29. 2. 4. ¶ Ezekiel xiv. 3. 4. 7; xviii. 30; xliv. 12.

llen llyfr ar *Logic*, ac yr oedd ynddo engraifft yn cael ei ddwyn yn mlaen o resymiad gwallus y Circassiaid, yr hwn oedd yn rhedeg fel hyn:—*This man has killed my brother; this man's father has begotten him; now had not he begotten a son, my brother would not have been killed; therefore execute the father.* Nid wyf yn dewis gwneuthur chwaneg o *gomment* ar hyn rhag i ddysgyblion uniaithog Mr. Jones ganfod anonestrwydd neu ddywyllwch eu hathraw. O berthynas i Samson yn cylymu ffagodau wrth gynffonau y cadnawiaid, digon y sylw na ddeil yr *analogy;* canys mae gwahaniaeth mawr rhwng dyn—creadur rhesymiadol a chadnaw—creadur afresymol. Os yw dyn wedi ei greu fel y myn Mr. Jones "i gael ei lywodraethu gan yr anogaeth gryfaf," gofynaf etto, pa fodd y gall santeiddrwydd anfeidrol fod yn awdwr pechod a dedwyddwch anfeidrol yn awdwr trueni.

Mae ein hawdwr yn ewyllysio credu fod colasis sef y gair Groeg am gosbedigaeth yn arwyddo cerydd er gwellhad ar y sail fod Plato yn rhoddi yr ystyr hynny, (mewn cydgordiad a'i dyb Paganaidd) i'r gair dan sylw. Mae hanesiaeth henafol Rollin yn rhoddi ar ddeall fod athraw Plato sef Socrates, yr hwn oedd yn athronydd Paganaidd, yn tybio fod yr eneidiau ymadawedig yn myned i Limbus sef Purdan; lle yr oeddent yn myned dan rifres o lanhad (Purgations) am eu troseddau. Y dyb hon a goleddid gan Plato yr hwn a fu farw 348 o flynyddau cyn Crist. Yn awr yr athronydd hwn heb feddu mwy na goleuni Paganaidd ac o dan ragfarn Baganaidd, yr hwn a fu farw dros dri chant o flynyddau o flaen amser ein Hiachawdwr, sydd i fod yn ol Mr. Jones yn esboniwr ar Matt. xxv. 46. Beth a wyddai y Philosophydd hwn am weinyddiadau Duw dan oruchwyliaeth oleu yr Efengyl? Mae yn well genyf fi gredu yr hwn a santeiddiodd y Tad, yr hwn a'n dysgodd fod 'cosbedigaeth dragywyddol' 'Tan anniffaddodwy' Lle nid yw eu pryf hwynt yn marw na'r tan yn diffodd." 'Yno bydd wylofain a rhincian dannedd.' A ydyw ein Harglwydd neu rhyw ran o'r ysgrythyr yn mynegu fod Uffern yn le ceir dyfod o hono? Na dim; Eithr "mae gagendor mawr wedi ei sicrhau; fel na allo y rhai a fynent, drammwy oddi yma atoch chwi; na'r rhai oddiyna, dramwy atom ninau." Gwn ei bod yn brif egwyddor yn athrawiaeth yr 'Adferiad' fod cosb yn ei nhatur yn geryddol; ac i'r dyben i gasglu hyny mae yn dda fel y gwelwn gael gafael a'r oleuni gwanaidd yr oes Baganaidd,* ond nis gellir casglu ei bod yn geryddol oddiwrth Philosophi yr oes efengylaidd. Yn ol gweithrediadau rheolaidd deddfau natur, mae rhai pechodau yn amddifadu dynion o'u rheswm: nis gall cosb mewn achosion o'r fath hyn fod yn geryddol, oblegid mae [y] dynion yn gwbwl analluog o welliant moesol. Mae pechodau eraill yn profi yn ddinystriol i'r agweddiad (Economy) anifeilaidd: ac nis gall rheswm weled pa fodd y gall cosb o farw fod yn geryddol. Ac os nad yw Duw wedi cysylltu cerydd a chosp yn y byd hwn, pa fodd y gallwn fod yn sicr y gwna efe yn y byd a ddaw? A raid iddo ef newid ei gyfreithiau er ein mantais ni mor aml ag y dewiswn eu tori hwynt? Ymddengys yn debygol oddiwrth reswm ac yn bendant oddiwrth ddatguddiad fod Duw, trwy gysylltu trueni a phechod, wedi bwriadu i drueni weithredu fel *rhybydd;* trwy hyny rhagflaenu cyflawniad pechod; ond y mae yn wahaniaeth dirfawr rhwng fod cosb yn rhybydd i eraill a bod yn gerydd i'r dyoddefwyr eu hunain.

Mae Mr. Jones yn addef fod y gair a gyfieithir 'tragywyddol' yn golygu parhad diderfyn ond yn ei gysylltiad a chosb‡. Gan ein bod yn barod wedi profi nad [yw] cosb yn y byd dyfodol yn gerydd, o ganlyniad mae ei reswm wedi ei ddadymchwelyd. Ar yr adnod hon sef 46 o xxv. Mat. mae gan y dysgedig A. Clarke y sylw canlynol. "Yr wyf wedi gweled y pethau goraf a ysgrifenwyd o blaid gwaredigaeth yr ysbrydion damnedig yn y diwedd; ond ni welais erioed atebiad i'r rheswm yn erbyn yr athrawiaeth hono a ddygir oddiwrth yr adnod hon; ond yr hyn y byddai yn gywilydd gan ddysg a berniadaeth sylweddol ei gydnabod.

Y mae cosb y drygionus yn cael ei gosod allan hefyd yn y geiriau "yn [oes] oesoedd" Gwel Dad. xiv. 3; xx. 10. nis gall y ffurf hon o ymadrodd feddwl llai na thragywyddoldeb priodol; oblegid y mae parhad y bod dwyfol—gogoniant, doethineb, anrhydedd, a'r gallu

---

[* *Pa beth mae ein Gohebydd yn cyfeirio atto, sydd tuhwnt i'n dychymyg ni. Braidd y mae yn bosibl ei fod ef wedi* camddeall *yr hyn ia ysgrfienodd ei wrthwynebwr. Sicr na ddarfu Mr. Jones ddwyn y pagan Plato fel awdurdod i esbonio yr adnod yn Matthew; ond yn unig fel awdurdod dros ystyr gair* (kolasis) *yn ei iaith enedigol ef. Drwg gennym orfod nodi y fath gamddarluniad; ond rhaid i ni ei nodi er mwyn y rhai hyny o'n derbynwyr a ddichon fod heb ddarllen y Gyfrol ddiweddaf o'r Ymofynydd.*—GOL.]

[‡ *Na, nid felly; ond yn gwbl groes, fel y gall y darllenydd weled yn y Rhifyn am Mehefin diweddaf, lle y mae Mr. Jones yn dwyn siamplau lawer o'r Hen Destament a'r Newydd, o bethau eraill a elwir yn "dragywyddol" heblaw cosp, pethau ag ydynt wedi darfod neu i ddarfod. Dylasai Mr. E. ddarllen yn ofalus ysgrifeniadau ei* opponent *cyn cynnyg i'w hatteb.*—GOL.]